# CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071

Rhifyn 326 - 60c
Medi 2014

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**C.Ff.I. Ceredigion ar y brig**




Tudalen 5

**Paul a'i ddofednod yn llwyddiannus**



Tudalen 13

**Mam a merch yn serennu yn y bowlio**



Tudalen 16

# Anrhydeddau i bobl lleol




Enillwyd y Gadair yn Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen am saith englyn gan John Rhys Evans, Ffarmers. Gydag ef mae plant y ddawns flodau, disgyblion Ysgol y Dderi, Llangybi.




Tair cenhedlaeth o deulu Tycam, Llanwenog sef Johnny, Peter a Steffan wedi eu llwyddiant gyda'r tarw Charalois a ddyfarnwyd yn Bencampwr y Teirw.

Mary Jones, Landre, Heol-y-Bont, Llambed gyda'i thystysgrif a dderbyniodd mewn seremoni yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Llanelli ar ddechrau mis Awst gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru yn dilyn ei hymroddiad am wasanaeth hir i Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn Llambed



# Llwyddiant disgyblion

Disgyblion balch Ysgol Bro Pedr gyda'u papurau canlyniadau TGAU.

O'r chwith- y rhes flaen- Sara Thomas, Luned Jones, Betsan Jones, Rhian Davies, Myfi Studman, Ffion Quan. Rhes ganol- Sara Evans, Sian Baddeley, Caitlin Page, Leanne James, Ceri Davies, Kelly Morgans, Meinir Davies. Rhes gefn - Rhys Williams, Gareth Jones, Sion Williams, Asa Asling, Rhys Jones a Huw Howells.





Canlyniadau Safon A - Ysgol Bro Pedr

O'r chwith - Rhydian Jenkins, Ellen Edwards, Edward Bransden, Steffan Roberts, Delyth Mathias a Ceri Cranfield. Yn absennol o'r llun mae Kiri Douglas, Louise Ruysch a Ben Webb. Llwyddodd y disgyblion i gael dwy radd 'A' neu fwy.



Gorsaf Brawf MOT

**GAREJ BRONDEIFI**

Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX
* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
* Teiars am brisiau cystadleuol
*Ceir newydd ac ail law ar werth
* Batris * Brecs * Egsost
*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth
01570 422305
07974 422 305



**CYFRi**

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn ailfeddiannu am eich cartref.

# Pwy yw pwy?

**Golygydd:**

| | | |
|---|---|---|
| Medi | Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach | 481855 |
| Hydref | Delyth Morgans Phillips, Llety Clyd, Llambed | |
| e-bost: | golygydd@clonc.co.uk | |
| Tîm Golygyddol | Elaine Davies, Dylan Lewis, Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips | |
| Dylunydd y mis | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Swyddog Dosbarthu | Eifion Davies, Afallon, Drefach | 480590 |
| e-bost: | bedwyr@btopenworld.com | |
| Teipydd | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |

**Gohebwyr Lleol:**

| | | |
|---|---|---|
| Cellan | Alwen Edwards, Awel Teifi | 421001 |
| Cwmann | Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen | 422922 |
| Cwmsychbant | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Llanwenog/Drefach | Mary Davies neu Eifion Davies | |
| Ffaldybrenin/Ffarmers | Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers | 01558 650507 |
| Gorsgoch | Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod | 434238 |
| Llambed | Janet Evans, Haulfryn | 422856 |
| Llanfair | Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn | 493407 |
| Llangybi a Betws | Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon | 493325 |
| Llanllwni | Dewi Davies, Glanafon | 480218 |
| Llanwnnen | Elin Thomas, 1 Teras Sycamor | 480239 |
| Llanybydder | Menna Jones, Ceginau Lifestyle | 480257 |
| Pencarreg | Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf | 422270 |

# Beth yw beth?

**Bwrdd Busnes:**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann | 422349 |
| e-bost: | cadeirydd@clonc.co.uk | |
| Is-Gadeirydd | Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach | 481855 |
| Ysgrifenyddes | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Trysorydd | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| e-bost: | ysgrifennydd@clonc.co.uk | |
| Ffotograffydd | Tim Jones, Llainwen, Llambed | 422644 |
| Argraffwyr | Gwasg Aeron, Aberaeron | 01545 570573 |

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Siprys

**Anogwyr**

All neb ddweud nad oes dim byd yn digwydd yn y parthau hyn dros yr haf p'run bynnag ... ac mae tudalennau'r rhifyn hwn o Clonc yn brawf o hynny! Y mae sawl cymuned leol - yn wledig ac yn drefol - yn cynnal carnifal, sioe amaethyddol, gwyliau bwyd ac ati, ac wrth ysgrifennu'r pwt hwn, y mae'n ŵyl y banc fis Awst, sy'n golygu bod Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen, yn denu rhai o bell ac agos i Lambed.

Mae'r ffaith fod yr Eisteddfod yn rhoi llwyfan i blant lleol yn haeddu clod. Nid pob plentyn fyddai'n cyrraedd y llwyfan petaen nhw'n gorfod cystadlu mewn rhagbrawf, ond o roi'r cyfle iddyn nhw berfformio ar lwyfan mawr yr ysgol ar ddydd Sadwrn yr Eisteddfod, maent yn cael y cyfle i ddysgu sgiliau gwerthfawr, sef y gallu i sefyll o flaen cynulleidfa a magu hunan-hyder - rhywbeth na chaiff ei ddysgu ond trwy brofiad ac anogaeth.

A sôn am anogaeth, un o'r pethau hyfrytaf i fi yn Eisteddfod Llambed eleni oedd araith y Llywydd ar y dydd Sadwrn. Neu'n hytrach, araith y Llywyddion, oherwydd roedd 'na fwy nac un! Yn aml iawn fel cystadleuydd, cyfle i fynd mas i fwyta tamed neu gael clonc oedd y slot 'Araith y Llywydd' eisteddfodol, ond fe fyddai pawb wedi bod ar eu colled o beidio â bod yn y neuadd y prynhawn Sadwrn hwnnw. Lena Daniel, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, gafodd y fraint o groesawu a chyflwyno "Merched Cribyn" - Olwen Davies, Llinos Henson a Dilwen Jenkins - tair o ffyddloniaid selocaf yr Eisteddfod. Hyd yn oed pe na fyddech chi'n eu nabod, mi fyddech chi wedi teimlo rhyw gynhesrwydd eithriadol yn y neuadd. Does ond angen edrych ar y dair i wybod eu bod yn joio cefnogi talentau lleol, ac mae'u gwên a'u hanogaeth yn gysur i bawb, o'r hynaf i'r ieuengaf. Roedd 'na lot o chwerthin yng nghyflwyniad Lena iddynt, ac yn araith fer Dilwen ar ran y dair. Ac mae'n beth gwych gweld tair werinol, didwyll a di-ffws fel y rhain yn cael eu hanrhydeddu i fod yn llywyddion un o'n prif wyliau fel cenedl, nid oherwydd eu bod mewn swyddi bras neu wedi ennill rhyw hawl a statws, ond am eu bod yn Gymry glew sy'n annog, yn cefnogi ac yn credu yn y Pethe. Diolch ferched Cribyn a'ch tebyg, mae gyda ni lot i'w ddysgu o'ch dilyn chi.

*Cloncen*

# Adloniant

Ar Ddydd Sadwrn, 12fed o Orffennaf, cynhaliwyd Sadwrn Sbort ar gampws Theatr Felinfach. Cafwyd diwrnod da, llawn bwrlwm a chadwodd y glaw draw tua 2:00 o'r gloch. Roedd amrywiol stondinau yn bresennol, yn fusnesau, deunydd cist car a sefydliadau. Cafwyd hefyd amrywiol adloniant i'r plant megis cestyll neidio a chynhaliwyd gweithdy drama a dawns yn y theatr i'r ieuenctid oedd yn bresennol. Roedd yr Adran Wisgoedd ar agor i ymwelwyr fedru mynd a phori drwy'r holl wisgoedd amrywiol sydd ar gael i'w hurio ac roedd nifer wedi cael amser gwych yn gweddnewid eu hunain gyda rhai o'r gwisgoedd ac yna recordio'r cyfan yn y Ffoto Booth a oedd yn y Gwndwn. Ar ôl hyn i gyd roedd angen lluniaeth i gael cadw i fynd - roedd barbeciw blasus iawn wedi ei osod o flaen y Stordy Setie ac fe brofodd yn boblogaidd iawn. Diolch i'r cogyddion i gyd, roeddent yn amlwg yn brofiadol iawn gyda barbeciws. Roedd y Llwyfan Acwstig yn llwyddiant mawr a chafwyd perfformiadau gan dalentau lleol, megis Dafydd Syfydrin, Mari Mathias ac Aled Henchey Jones. Roedd awyrgylch hyfryd ar y campws drwy gydol y dydd ac yn sicr bydd hwn yn ddigwyddiad y byddwn am adeiladu arno i'r dyfodol. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.

Mae'r Sesiynau Ioga wedi parhau yn llwyddiannus iawn. Bydd y sesiynau yn parhau hyd at fis Medi, yn dechrau ar 9fed Medi am 5.30-6.30. Mae'r sesiynau yn addas i bawb dros 14+ oed o bob gallu a phrofiad.

Roedd ffocws ar ddatblygu Dawns i Fechgyn ym mis Mehefin a bu'r Rhaglen Ddawns yn llwyddiannus i gael grant oddi wrth PESS Ceredigion i weithio gydag ysgolion lleol er mwyn datblygu dawns i fechgyn. Daeth Cwmni Dawns Ephemeris o Firmingham i'r theatr i gynnal gweithdy Hyfforddiant mewn Swydd i athrawon a'r bwriad yw parhau i gydweithio gyda'r ysgolion yn ystod y tymor newydd er mwyn cynnal prosiectau a sesiynau dawns i fechgyn a chynyddu'r niferoedd o fechgyn sy'n dawnsio o fewn y sir.

Aeth Catherine, Swyddog Dawns y Theatr ar hyfforddiant dawns a dementia yn ystod mis Gorffennaf. Roedd hi'n ddiwrnod diddorol iawn a bydd Catherine yn cynllunio prosiect newydd yn ystod tymor yr hydref ar gyfer pobl yng Ngheredigion sydd â chyflwr Dementia.

Mae sesiynau'r Rhaglen Ddawns yn ail gychwyn ym mis Medi:

Cwmni Dawns Rhuddem i bobl 50+ oed, yn Llanbadarn – 8fed Medi, 7.00 - 8.30 a phob nos Lun

Ioga i Bawb 14+ oed – 9fed Medi, 5.30 - 6.30

TicToc 0 – 3 oed – 12 Medi, 10.00 - 11.00 a phob bore Gwener

Sesiwn flasu TicToc 4-6 oed, Dydd Sadwrn, 20 Medi, 10.00-11.00

- 12 Medi – Ffilm y Mis – The Last Days of Dolwyn. Byddwn yn ail-gychwyn Clwb Ffilm Theatr Felinfach ac mae rhaglen o ffilmiau gennym am y 6 mis nesaf. Dewch yn rhan o'r clwb.
- 18 Medi – Cyngerdd a dathliad o ganu piano yng nghwmni disgyblion ysgol gerdd Dorothy Wilson.
- Premier Ffimiau Hywel Dda – Cyflwyniad o 4 ffilm fer sy'n dehongli cynnwys Llawysgrif Boston (o gasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru).
- 26 Medi – y noson gyntaf mewn cyfres o ddigwyddiadau arbennig i Gyfeillion Theatr Felinfach. Lansir pecyn aelodaeth newydd ar y noson.
- Hydref – Bydd DRAMATIC yn cychwyn ym mis Hydref. Clwb Drama 7 – 11 oed.
- 4 Hydref - Garw gan Gwmni Theatr Bara Caws

Dewch yn FFRIND i'r Theatr a mynnwch gopi o raglen y tymor – rhaglen newydd allan nawr felly galwch heibio am gopi. Swyddfa Docynnau - 01570 470697 www.theatrfelinfach.com

# Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

**MEDI**

6 Sioe Amaethyddol Llandysul a'r Cylch.
7 Oedfa a Phicnic Ysgol Sul Noddfa am 3.30y.p.
9 Cinio Cylch Bedyddwyr Gogledd Teifi yn y Grannell, Llanwnnen, 7.30y.h.
12 Gŵyl Golwg - 'Golwg Go Whith' yng Nghlwb Rygbi Llambed am 7.30y.h.
13 Gŵyl Golwg ar dir Campws prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Llanbed o 10.00y.b tan 7.00y.h..
13 Cyngerdd gyda Meic Stevens, Plu a Mari Mathias yn Neuadd Fictoria.
13 Ffair Ram yng Nghae Pentref Cwmann.
17 Cwrdd Diolchgarwch Capel Maesyffynnon, Llangybi am 2.00.
18 Oedfa Eciwmenaidd yn Eglwys San Tomos Llambed am 7.00.
22 Cyfarfod Fforwm Papurau Bro Ceredigion Canolfan Felinfach.
27 Barbeciw yng Nghwm Aur am 1.30y.p. Elw i Ymchwil Cancr Llanybydder a'r Cylch.
27 Pwyllgor R.A.B.I. Ceredigion yn cynnal Dawnsio Sgwâr/Square Dancing am 7.30y.h. yn Neuadd Llwyncelyn. Tocynnau £5 oddi wrth Steve Hunt 01545 580233.
29 Cwrdd Diolchgarwch Noddfa am 7.00y.h.

**HYDREF**

2 Cwrdd Diolchgarwch Capel Seion, Cwrtnewydd am 7:00 gyda'r Parch Stephen Morgan, Talsarn.
4 Theatr Bara Caws yn cyflwyno GARW' – drama newydd gan Sion Eirian yn Theatr Felinfach.
6 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Silian am 7y.h. Parch. Judith Morris, Aberystwyth.
6 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn, Cwrtnewydd am 7.00y.h.
8 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrhos am 7y.h.
10 Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach.
11 Moes a Phryn yn neuadd Seion, Cwrtnewydd am 3.00y.p. o dan nawdd Urdd y Benywod Capel y Bryn.
12 Gymanfa Ganu dathlu 50 Côr Cwmann a'r Cylch yn Soar Llambed am 7.00 y.h.
14 Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw am 7.00y.h. Gwasanaethir gan y Parch Evan Mason Davies Aberystwyth. Croeso cynnes i bawb.
16 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm, Cwmsychpant am 7.30y.h.
22 Noson Côr Cwmann a'r Cylch yn lansio llyfr hanes "Cofio'r Hanner Canrif". Bydd rhagor o fanylion am y lleoliad mis nesa.
25 Eisteddfod Gadeiriol, Pumsaint Manylion pellach wrth Mair Williams, 0155865029 saintpump@btinternet.com
29 Cwrdd Diolchgarwch Capel Rhydcymerau am 6.30y.h.
30 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.

**TACHWEDD**

1 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.
1 Neuadd Coroniad Pumsaint Cyngerdd Talentau Lleol am 7.30. Tocynnau: 01558 650292; 01558 650558.
5 Tân Gwyllt Llambed, wedi'i drefnu gan y Ford Gron.
5 Festri Aberduar, swper dathlu 70 Cymdeithas Chwiorydd Aberduar.
7 Cinio Dathlu 25ain Pwyllgor R.A.B.I. Ceredigion yn TyGlyn, 7 ar gyfer 7.30y.h. Tocynnau £20 oddi wrth Steve Hunt 01545 580233, neu Linda Jones 01559 364850.
15 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru ym Mhafiliwn Bont.
28 a 29 Ffair Grefftau Flynyddol Pumsaint.
29 Arwerthiant Blynyddol Seion, Cwrtnewydd am 3:00y.p.

**RHAGFYR**

24 Gwasanaeth Garolau yn Hen Gapel Llwynrhydowen am 9.00y.h.
25 Cwrdd Undebol yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant am 9.00yb.


Wedi meddwl hysbysebu yn eich papur bro?
Ceir prisau rhesymol iawn
gan ddechrau gydag hysbyseb bach yn

**£10 yn unig,**
a dim ond £60 am ddeg ohonynt.
ysgrifennydd@clonc.co.uk


# Clwb Clonc

## MEDI 2014

**£25 rhif 195** :
Mrs Doreen Harries,
21 Heol Hathren, Cwmann.
**£20 rhif 498** :
Mrs Flo Williams,
Brynamlwg, Llanwnnen.
**£15 rhif 37** :
Mrs Yvonne Davies,
Afallon, Drefach.
**£10 rhif 270** :
Mrs Fiona Jones,
Llysteifi, Cwmann.
**£10 rhif 472** :
9 Llys Myrddin, Caerfyrddin.
**£10 rhif 434** :
Mrs Nanna Ryder,
Tyngrug-ganol, Cwmsychpant
**£5 rhif 445** :
Olwen Thomas,
12 St Quentin's Close,
Llanfleiddan, Y Bontfaen.

# Ffarmers

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Niah Bouvet, Dinas View, Llansawel am basio arholiad piano Step 1 gydag anrhydedd. Gwnaeth Niah lwyddo i gael marciau llawn yn y theori hefyd. Da iawn ti.

# Cellan

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mary a Ken Jones, Glasfryn ar golli ei brawd sef Gwmryn Mason Lewis o Lanilar. Rhoddwyd ei weddillion i orffwys yng Nghapel yr Erw, Cellan ar ddechrau mis Gorffennaf.

**Gwellhad Buan**

Dymunwn wellhad buan i Mrs Alwen Edwards, Awel Teifi a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Cwrdd Diolchgarwch**


Bydd Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw yn cael ei gynnal ar nos Fawrth y 14eg o Hydref am 7 o'r gloch. Gwasanaethir gan y Parch Evan Mason Davies Aberystwyth. Croeso cynnes i bawb.

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.




HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221




*Mwnci ffwnci*

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.
**Sioned Green**
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambed
☎01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

***Gwasanaethau Coed Teifi Tree Services***

Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfynbris am ddim
*Coed tân ar werth*
Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797
**D. Lloyd a'i Feibion**
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440
**Masnachwyr coed a nwyddau adeiladu a ffensio o bob math Glo caled a glo meddal o'r ansawdd gorau**

# Colofn y C.Ff.I.

**C.Ff.I. Ceredigion**

Wrth i'r haf ddod i ben, mae'n amser crynhoi hanes y C.Ff.I. yng Ngheredigion. Mae'r aelodau wedi bod yn brysur iawn dros yr haf yn cystadlu, yn mwynhau ac yn teithio.

**SPLASH!**

Cynhaliwyd SPLASH ar ddydd Sadwrn yr 28ain o Fehefin ar gaeau Maesllyn, Tregaron. Diwrnod llawn gweithgareddau amrywiol, gydag aelodau a ffrindiau'r mudiad yn mwynhau It's a Knock Out a Sesiwn Acwstig yn y prynhawn, a'r plant yn dawnsio a joio gyda Heini, Coblyn, Bili Bom Bom a Siani Flewog ynghyd â chastell bownsio a chanŵio ar y llyn. Yn ystod y bore bu nifer o bobl ddewr yr ardal yn cymryd rhan yn y Duathlon, sef ras fawr, lle mae disgwyl i'r cystadleuwyr redeg a reidio beic. Yn ein duathlon ni, rhaid oedd rhedeg 5.1 milltir, beicio 14.3 ac yna rhedeg 1.5 milltir eto i orffen. Llongyfarchiadau i Llew Lloyd a Gareth Hodgson am ennill y ras mewn tîm, ond yn ennill y ras yn unigol, oedd David Cole. Gyda'r hwyr, cynhaliwyd dawns fawr. Adloniant y noson oedd DJ Bry, Lady Gaga Tribute Act, #band6 a'r Chip Shop Boys. Cafwyd noson wych, â llond lle o bobl yn dawnsio yn yr awyr agored. Yng nghanol y glaw a'r pwdel, roedd hi wir yn 'splash' go iawn, ond er y tywydd garw, mae'n rhaid dweud bod y diwrnod yn un penigamp!

**Athletau'r Sir**

Athletau'r Sir oedd nesaf ar y calendr, felly bant a ni i Aberaeron i redeg, neidio a thaflu. Llanwenog a ddaeth i'r brig ar ddiwedd y noson, Mydroilyn yn ail a Phontsian yn drydydd.

Chwaraeon y Sir

Mwy o ymarfer corff eto wrth i bawb yn niwrnod Chwaraeon y Sir yn Llambed. Dyma'r canlyniadau: Hoci: Pontsian. Pêl-droed: Llanwenog. Dodgeball: Bro'r Dderi. Pêl-rwyd: Pontsian. Rownderi: Mydroilyn. Rygbi Cymysg: Llangeitho.

Felly ar ddiwedd y cystadlu, yn ennill chwaraeon y Sir oedd Pontsian a Bro'r Dderi, yn ail oedd Llanwenog ac yn drydydd, Mydroilyn.

Rygbi 7 bob ochr

Wel wel...MWY o ymarfer corff!? Ond rygbi y tro yma. Daeth y timau i gae rygbi Aberaeron i gystadlu yn y rygbi 7 bob ochr. Llongyfarchiadau i glwb Caerwedros am ennill y gystadleuaeth.

**Aelod Iau NFYFC**

Gan i Gwawr Hatcher gael ei dewis i fod yn Aelod Iau Cymru, aeth ymlaen i gynrychioli'r wlad gyda NFYFC. Llongyfarchiadau anferth i ti Gwawr am gyrraedd y trydydd safle. Tipyn o gamp! Rwyt ti wedi rhoi Llanwenog a Cheredigion ar y map yn genedlaethol. Da iawn!



Dyma lun o Gwawr gyda'r rhai eraill a ddaeth i'r rownd derfynol.

**Y Sioe Frenhinol**

Daeth yr wythnos fawr i aelodau'r C.Ff.I a theithiodd sawl carafán a threilar lan i Lanelwedd ar gyfer wythnos o gystadlu a mwynhau. Ar ôl wythnos o gystadlu brwd rhwng y Ffederasiynau daeth llwyddiant ysgubol i Geredigion a braf nodi fod yna gynrychiolaeth o 15 o glybiau'r Sir wedi cyfrannu at y llwyddiant. Dyma'r canlyniadau: Arddangosfa Ffederasiwn – 2il: Llanddewi Brefi. Dylunio a Chreu Uwcharwr – 2il: Llanddeiniol. Y Llais – 2il: Unigol – Catrin Reynolds, Troedyraur – 5ed: Grŵp – 2il: Llanddewi Brefi. Cneifio – 7fed: Gwion Evans, Talybont 8fed 21 oed neu iau a Ceredig Lewis, Llangwyryfon 9fed 26 oed neu iau. Arddangosfa'r Prif Gylch – 7fed: Pontsian. Barnu Moch Cymreig – 1af: Bedwyr Siencyn, Talybont 1af 16 oed neu iau; Dewi Davies, Llanddeiniol 1af 18 oed neu iau; Dyfrig Williams, Llangwyryfon 4ydd 21 oed neu iau a Caryl Haf Jones, Llanddewi Brefi 1af 26 oed neu iau. Cystadleuaeth yr Aelodau – 4ydd :(Crefft, Coginio a Blodau). Blodau – 2il:Elinor Morgan, Llanddewi Brefi. Coginio – cydradd 3ydd: Elinor Jones a Guto McAnulty-Jones, Llangeitho. Crefft – cydradd 5ed: Sara Griffith, Llangwyryfon. Gwisgo i Fyny – 2il:Caryl Jacob a Chloe Lewis, Bro'r Dderi. Dawnsio – 1af: Mydroilyn. Hyrwyddo Elusen – 2il: Llangwyryfon. Y Sgwrs – cydradd 3ydd: Hannah Parr a Meleri Morgan, Llangeitho. Barnu Defaid Charollais – 1af : Gethin Evans, Caerwedros 2il 16 oed neu iau; Dafydd James, Bryngwyn 2il 18 oed neu iau; Owyn Davies, Llanddeiniol 9fed 21 oed neu iau a Catrin Haf Jones, Mydroilyn 1af 26 oed neu iau. Rygbi – 1af Tynnu'r Gelyn - cydradd 5ed: Bechgyn Llanwenog 5ed; Merched Pontsian 5ed a Thîm Iau Llanwenog cydradd 8fed. Coedwigaeth – 1af: Edward Wells a Marc James, Penparc. Yr Arwr – 4ydd: Felinfach. Barnu Gwartheg Holstein – 8fed: Dyfan Evans, Troedyraur cydradd 3ydd 16 oed ac iau; Aron Dafydd, Bro'r Dderi 9fed 18 oed ac iau; Rhodri Pugh-Davies, Bro'r Dderi 4ydd 21 oed neu iau a Dion Davies, Pontsian 8fed 26 oed neu iau. Her Arwyr – 6ed: Sophie Jones a Delyth Evans, Bro'r Dderi.

Dyfarnwyd bod Ceredigion yn gyntaf am y mwyaf o farciau yn yr Adran Beirniadu Stoc gan ennill tlws coffa R.L. Jones.



Dyma dîm dawnsio C.Ff.I. Mydroilyn a ddaeth i'r brig yn y Sioe Frenhinol.



O ganlyniad i'r holl lwyddiannau hyn sicrhawyd bod Ceredigion yn gyntaf gyda 131 o bwyntiau ac yn ennill cwpan NFU gyda Sir Gâr yn ail a 120 o bwyntiau a Sir Benfro yn drydydd gyda 119 o bwyntiau. Canlyniad gwych felly a llongyfarchiadau mawr i bawb.

Bydd blwyddyn newydd yn dechrau i ni fel mudiad ym mis Medi. Cofiwch os ydych chi rhwng 10 a 26 mlwydd oed, mae croeso i chi ymuno â ni. Ewch ar ein gwefan am fwy o wybodaeth: www.yfc-ceredigion.org.uk

**Academi-Amaeth i Aelodau CffI**

Yn ystod y Sioe Frenhinol Cymru, cyhoeddwyd enwau'r ymgeiswyr llwyddiannus yr Academi Amaeth Ifanc ac mae tair allan o'r 14 llwyddiannus yn aelodau yng Ngheredigion. Nod y Rhaglen Amaeth Iau, ar y cyd â Chyswllt Ffermio, yw ysbrydoli pobl ifanc i ystyried gyrfa gwerth chweil a diddorol o fewn y diwydiant bwyd a ffermio. Roedd y Dirprwy Weinidog dros Amaethyddiaeth a Physgodfeydd, Rebecca Evans, yn y lansiad i longyfarch yr ymgeiswyr llwyddiannus. Llongyfarchiadau anferth i Eiry Williams, Lowri Mair Jones a Marged Jones am gael eu dewis a phob dymuniad da i chi wrth gymryd rhan yn y project cyffrous yma.

**I ddod...**

Nos Fercher y 10fed o Fedi: Hyfforddiant Barnu Stoc.

Dydd Sadwrn y 27ain o Fedi: Diwrnod Maes y Sir ar Fferm Ferwig, Penparc.

Nos Fercher y 24ain o Fedi: Cyfarfod Blynyddol y Mudiad yn Neuadd Caerwedros am 8.00.

Y 3ydd i'r 4ydd o Hydref: Penwythnos Cyfarfod Blynyddol C.Ff.I. Cymru

# Cohebiaeth

**Cariadon o Geredigion ymhlith deg Fferm Ffactor 2014**



Ymhlith y deg o ffermwyr sy'n camu i ffau Fferm Ffactor 2014 mae cwpwl ifanc o Geredigion, sydd yn barod i gystadlu yn erbyn ei gilydd, er mwyn hawlio teitl ffermwr gorau Cymru a'r wobr fawr; y pic-yp Isuzu D-Max Yukon.

Pan fydd y gyfres yn dychwelyd i S4C yn yr hydref, mi fydd y cariadon o Geredigion - Angharad James, 23, o Lanwnnen, a Rhys Lloyd Jones, 22, o Dregaron - yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Ond, fel aelodau o Glybiau Ffermwyr Ifanc gwahanol, maen nhw wedi hen arfer â gwneud hynny.

Meddai Rhys, o fferm Ystrad Dewi a Chadeirydd CFfI Llanddewi Brefi, "Mae Angharad a minnau wedi cystadlu yn erbyn ein gilydd mewn cystadlaethau'r Ffermwyr Ifanc. Ro' ni'n eitha' cystadleuol, a dyna shwt fyddwn ni ar Fferm Ffactor hefyd."

Ond mae Angharad, o fferm Castell Du sy'n aelod o CFfI Pontsian, yn gobeithio y byddan nhw'n gefn i'w gilydd, "Dwi'n gwybod bydd 'na dipyn o rivalry rhyngof i a Rhys, ond rwy'n gwybod hefyd byddwn ni'n helpu'n gilydd i allu 'neud yn well."

Yn cystadlu hefyd mae ffermwr arall o Geredigion. Mae Delyth Mair Williams, 24, yn rheolwraig fferm Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llanerchaeron. Mae ganddi radd mewn Amaeth a Rheolaeth Cefn Gwlad o Brifysgol Aberystwyth, ac mae hi wrth ei bodd ymhlith y gwartheg ac yn hyfforddi Cŵn Defaid.

Meddai Delyth; "Dwi wrth fy modd fwya' efo gwartheg - dyna le dwi yn fy elfen. A dwi wrth fy modd yn gweld safon rhywbeth yn gwella."

Y saith ffermwr sy'n cystadlu yn eu herbyn yw: Gethin Lloyd,54, Abergorlech; Wil Davies, 29, Llanybri; Angharad James, 23, Llanwnen; Tudor Roberts-Watkins, 32, Carno; Gethin Eifion Jones, 20, Rhosfawr, Pwllheli; Tudur Jones, 49, Tŷ'n Rhos, Pentrefoelas; Shôn Endaf Edwards, 43, Bryn Barcut, Llangernyw.

Ac nid y cystadleuwyr yn unig fydd yn camu i'r ffau am y tro cyntaf, oherwydd eleni mae wyneb newydd yn arwain y gyfres. Y cyflwynydd teledu a radio, a'r mab fferm o Dregaron, Ifan Jones Evans fydd yn cyflwyno Fferm Ffactor 2014, ac yn gwmni iddo mae'r ddau feirniad llym: y ffermwr Aled Rees a'r Athro Wynne Jones.

Bydd y gyfres yn cael ei darlledu ar S4C yn yr hydref. Am ragor o wybodaeth am y ffermwyr, ewch i s4c.co.uk/ffermffactor

Gallwch gadw mewn cysylltiad ar Facebook - facebook.com/ffermffactor - a dilyn y tîm ar Twitter @ffermffactor

# Gwyl Golwg

Ar ôl llwyddiant ysgubol llynedd, mae Gŵyl Golwg nôl eto eleni am yr ail flwyddyn ym mis Medi.

Cynhaliwyd yr ŵyl llynedd er mwyn dathlu chwarter canrif ers sefydlu'r unig gylchgrawn materion cyfoes wythnosol yng Nghymru sef cylchgrawn Golwg. Bydd yr ŵyl eto'n cael ei chynnal yn Llanbedr Pont Steffan, lle mae Golwg wedi ymgartrefu ers y dechrau.

Mae'r digwyddiad yn dri diwrnod o adloniant a diwylliant, gyda'r arlwy yn cynnig rhywbeth at ddant pawb. Bydd yna gomedi, bandiau acwstig byw, sesiynau llenyddol, trafodaethau digidol, gweithgareddau i'r plant a sesiynau difyr i bobl sy'n dysgu Cymraeg.

Bydd yr ŵyl yn dechrau ar nos Wener, 12 Medi yng Nghlwb Rygbi Llanbed gyda Golwg Go Whith, noson gomedi yng nghwmni rhai o ddiddanwyr amlycaf a doniolaf Cymru, gan gynnwys y ddau leol iawn i Lanbed, Gary Slaymaker a Gillian Elisa. I ddilyn, bydd Cyngerdd Gŵyl Golwg yn y Neuadd Fictoria ar nos Sadwrn gyda Mari Mathias, merch ifanc, dalentog o Ddyffryn Teifi, y triawd gwerinol, teuluol, Plu a'r trwbadŵr o Solfach, Meic Stevens. Bydd y gyngerdd yn nodi 30 mlynedd union ers urddo Meic Stevens i Orsedd y Beirdd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanbed.

Ar y dydd Sul eleni, cynhelir yr ŵyl drwy'r dydd ar gampws Prifysgol Llanbed gyda rhestr hyd braich o artistiaid, llenorion, trafodaethau digidol, sesiynau i ddysgwyr, gweithgareddau i blant a stondinau cynnyrch Cymreig lleol a chenedlaethol. Bydd artistiaid cerddorol byw fel Catrin Herbert, Gwilym Bowen Rhys, Gildas, Lowri Evans, Blodau Gwylltion ac Ail Symudiad yn chwarae yn y Babell Roc.

Bethan Gwanas fydd yn traddodi darlith goffa Islwyn Ffowc Elis eleni – y ddarlith flynyddol i nodi ei gyfraniad cyfraniad arbennig yr awdur i ysgrifennu ffuglen, ac i fywyd diwylliannol ardal Llanbedr Pont Steffan.

Bydd hefyd sesiynau llenyddol gan yr awdures leol Caryl Lewis, Karen Owen, T. James Jones ac enillydd Llyfr y Flwyddyn eleni, Ioan Kidd. Bydd hefyd trafodaeth deugain mlwyddiant Pobol y Cwm yng nghwmni Andrew Teilo, Gillian Elisa ac awdur y gyfrol sy'n dathlu pen-blwydd yr opera sebon, Lowri Cooke. Byddwn hefyd yn clywed gan Richard Rees ac Ail Symudiad yn y Stafell Sgwrsio.

Mae trafodaethau digidol yr ŵyl yn cynnwys sgwrs ar greu app a thrafodaeth ar rôl cyhoeddiadau print yn yr oes ddigidol yng nghwmni Dylan Lewis, cadeirydd Papur Bro Clonc ac Elis Dafydd o gylchgrawn Tu Chwith. Bydd Radio Beca a Chymru FM yn trafod darlledu digidol ar y we a Daf Prys, sylfaenydd Fideo 8 a blogiwr gemau golwg360 fydd yn trafod dyfodol gemau cyfrifiadurol Cymraeg.

Bydd hefyd arlwy gwych i blant gan gynnwys sesiynau stori gyda Wcw, Caryl Lewis a Meleri Wyn James, awdur Na, Nel! Yn ogystal â hynny, bydd digon o hwyl yng nghwmni Dona Direiri, Ben Dant, Holi Hana a Sali Mali.

Côr Dysgwyr Ceredigion fydd yn agor sesiynau'r dysgwyr a bydd arlwy llawn yn arbennig i bobl sy'n dysgu Cymraeg drwy'r dydd yn ystod yr ŵyl.

Am fwy o wybodaeth, neu i brynu tocyn, cysylltwch â Swyddfa Golwg ar 01570 423529 neu ewch i wefan Gŵyl Golwg ar www.gwylgolwg.com

Mae Gŵyl Golwg hefyd ar Twitter, @gwylgolwg ac ar Facebook, Gŵyl Golwg 2014.


CANCER RESEARCH UK Llanybydder a'r ardal

**BARBECIW**

27ain Medi 2014
Cwm Aur Llanybydder
1.30yp

Stondin boteli, Raffl,
Adloniant Côr Clychau'r Fedwen

Llywydd Mrs Diana Harper
Mynediad am ddim

Rhif elusen 1089464



**Ffair Ram**
Ar Gae Pentref Cwmann

**13eg Medi 2014**

Llywyddion: Mr Roy Roach, Llanwnnen.
Sioe, Arddangosfa Adar Ysglyfaethus, Bar, Bwyd, Hufen Iâ ac atyniadau eraill.





**Arddangosfa Hen Beiriannau**
Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 a 11.30 y bore. Beirniadu yn dechrau am 12 o'r gloch.
Ysgrifenyddion:
Danny Davies 423692, Eiddig Jones 422655



**LYN JONES**
*"At eich gwasanaeth"*

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder
SA40 9RL



**Oh My Cod**

Siop Pysgod a Sglodion

19 Stryd Fawr, Llanbed

Oriau Agor:
Llun - Sadwrn 12 - 9
Sul - ar gau



**DIOLCH YN FAWR iawn i bawb sydd wedi ymuno** â Chlwb CLONC eleni eto. Rydym wedi cael ymateb gwych ac erbyn hyn rydym wedi cyrraedd **522** o aelodau. Y nifer fwyaf erioed. Cofiwch, nid yw yn rhy hwyr os nad ydych wedi talu.

Rhoddir **bag siopa poced newydd Clonc** i bawb sy'n ymaelodi o'r newydd, ac i aelodau blynyddol sy'n cynyddu aelodaeth a thalu drwy archeb banc.




# Sarn Helen

Ras hwyl Felinfach a Gancho Slavo Aberystwyth ac yn ennill y ras chwech filltir 32:34, 2il Jack Tremlett Trots 33:29, 3ydd Mike Evans Trots 33:42, 1af d 40 Glyn Price Sarn Helen 34:03, 2il Jamie Biggs 34:25, 3ydd Norman Higgs Aberystwyth AC 34:50, 1af d50 Richard Mark Sarn Helen 37:06, 2il Paul McDermott Sarn Helen 37:51, 3ydd Paul Rose Aberystwyth AC 38:11. Menyw 1af Bethan Williams 40:49, 2il Sian Roberts-Jones Sarn Helen 42;22, 3ydd Caryl Davies Sarn Helen 43:15, 1af m45 Helen Willoughby Sarn Helen 41:03, 2il Dawn Kenwright Sarn Helen 41:43, 3ydd Lindy Eynon Trots 42:23, 1af m35 Eleri Rivers Sarn Helen 43:05, 2il Alice Harrison Emlyn Runners 47:02, 3ydd Anwen Davies Sarn Helen 50:04. Dynion Sarn Helen aeth â'r wobr tîm, Glyn Price, Llewelyn Lloyd, Kevin Regan a Daniel Hooper. 1af yn ras 3000 medr Tomos Evans Penweddig 10:57, 2il Aled Jones 11:11, 3ydd Tomos Morgan Ysgol y Preseli 12:05, 1af merch Sioned Wallwork Penweddig 12;06, 2il Grace Page Sarn Helen 12;53, 3ydd Noami Howell Sarn Helen 14:56. Ras 1500 medr Frank Morgan Carmarthen Harriers yn ennill mewn 5:57, 2il Daniel Ifan Jones Sarn Helen 6:13, 3ydd Harry Worth Pembs Harriers 6:20, 1af merch Maddie Morgan Carmarthen Harriers 6;26, 2il Seren James Carreg Hirfaen 6:56, 3ydd Hanna Jones Ciliau Parc. Wythdeg a thri o redwyr yn cystadlu yn ras 800 medr i wyth oed ac iau, gyda Rhys Tom Williams Bro Pedr y ennill mewn 3:13, 2il Rhys Williams Sarn Helen 3:20, 3ydd Guto Miles Felinfach 3:21, Merch 1af - Seren Davies Aberaeron 3:32, 2il Jessica McKay Bro Pedr, 3:37, 3ydd Gwenllian Llwyd Sarn Helen 3:40.

Cafodd Cailtlin Page a Ffion Quan eu dewis i gynrychioli Cymru yn ras fynydd rhyngwladol y byd yn Arco di Trento yn yr Eidal, mwynheuodd y ddwy y profiad yn fawr iawn. Yn ras ysgolion Cymru dan Dyfed ar drac, enillodd Ffion Quan y fedal efydd yn yr 800 medr 2 funud 24 eiliad a 86, ac enillodd Caitlin Page y fedal aur yn y 1500 medr mewn 5 munud 01 eiliad a 22, ac mae Cailtin wedi cael ei dewis i gynrychioli Cymru yn ras rhyngwladol ysgolion Cymru a gorffenodd mewn 4 munud 56 eiliad 84.

Glyn Price yn dod yn ail vet 40 yn ras 'Fan y Big Horeseshoe' ar fynydd Bannau Brecheiniog 1:21:42, Daniel Hooper 1:24:45, Paul McDermott 1:32:17, Tony Hall 1:35:14, Huw Price 1:41:54, Aneurin James 1:42:28, a Katie McDermott 1:44:48.

Dydd Sadwrn oedd Ras Ryngwladol Yr Wyddfa, ni chaniatawyd y ras eleni i fynd lan i'r copa oherwydd y tywydd felly y cynta i fyny i bont Clogwyn ac yn nôl lawr i Lanberis o glwb Sarn Helen oedd Carwyn Thomas 1:02:59, Simon Hall 1:07:24, Caryl Davies 1:18:37 a Terry Jones 1:23:52.

# Ada yn 103 oed



Ar ddydd Llun Gŵyl y Banc dathlodd Mrs Ada Williams, o Gartref Maesyfelin, Drefach ei phen-blwydd yn 103 oed. Derbyniodd Mrs Williams basged o flodau oddi wrth Cyng John Adams-Lewis Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion a'i wraig Mrs Adams-Lewis. Yn y llun hefyd (o'r chwith) merch Betty ac Owen Davies, Cyng Euros Davies ac Elin Jones AC.

# R.A.B.I.

Dathlodd Pwyllgor Sirol Ceredigion 25 mlynedd o weithgarwch gyda chyngerdd cofiadwy yn Neuadd Goffa Aberaeron ar nos Wener 11 Gorffennaf. Croesawyd dros 100 o bobl gan y Cadeirydd, Stephen Hunt i'r digwyddiad, a chafwyd perfformiad arbennig iawn gan Caryl Glyn, soprano sy'n byw yn Aberaeron. Dewiswyd rhaglen amrywiol gan Caryl, yn cynnwys caneuon o sioeau cerdd poblogaidd megis "The Phantom of the Opera", "The Sound of Music", ariâu operatig a hen ffefryn traddodiadol Gymraeg, "Y Blodau Ger Y Drws". Yn rhannu'r llwyfan ar y noson oedd Côr Bois Y Felin, côr meibion o bentref Bancyfelin, a hwythau hefyd mewn llais da, gydag amrywiaeth o ganeuon yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn cynnwys y bythol boblogaidd "You'll Never Walk Alone" ac un o'r emynau poblogaidd yn y Gymraeg, "Gwahoddiad ". Llywydd y noson oedd Stephen James, NFU Cymru, a braf oedd croesawu ef a'i wraig Joyce i'r noson. Cafwyd araith ddoniol a phwrpasol gan Stephen yn ystod yr egwyl. Diolch i Ddirprwy Gadeirydd R.A.B.I., Malcolm Thomas, am arwain y noson yn wych. Yn bresennol hefyd roedd Elin Jones, AC dros Geredigion, a Mark Williams, AS Ceredigion a'i wraig. Cynhaliwyd raffl ar y noson a chyfanswm yr arian a godwyd oedd £880. Diolch yn fawr i'r pwyllgor yng Ngheredigion am eu gwaith gwerthfawr dros 25 mlynedd. Hir y parhaed!


**Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog**

Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini newydd **Clwb Rygbi Llambed** yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 3.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

*Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach.*

Lifft cyfleus nawr yn ei le i fynd lan llofft

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
**Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.**



GWASANAETHAU YSWIRIANT FUW

Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.

Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

**Gwasanaethau Yswiriant FUW**
Sgwar Y Mart, Llanybydder,
Sir Gaerfyrddin SA40 9UE

Swyddfa: 01570 481208
Carys Davies: 07890 883346
Gwion James: 07980 608337

www.fuwinsurance.co.uk
Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.



**Gwersi Gitar:**

Hafod Wen, Pwllswyddog,
Tregaron, SY25 6JG.

Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk



YOUTUBE
Gwersi Gitar Cymraeg
Caneuon Rygbi
Gitar i'r Cristion

01974 299367



**COMPASS OFFICE SUPPLIES**

Am eich holl ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambed, Heol Tregaron,
Llambed.

☎ 01570 422955
🖷 01570 422232



**Cludfwyd Indiaidd**

**NEHAR**



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

**15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.**

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.

**10 Stryd y Bont, Llambed**
**☎ 01570 422893 / 422175**



CANOLFAN ADDURNO
**AA A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

*Arbenigedd ar garreg eich drws.*
**3 Stryd y Bont**
**Llanbedr Pont Steffan**
**01570 423156**

# Ysgol Bro Pedr



Caiyo Williams o flwyddyn 6 yn ennill cwpan cyfeillgarwch Huw a Liz Jenkins am y flwyddyn am ei garedigrwydd a'i gymorth i eraill. Da iawn ti Caiyo.



Filip Poczatek disgybl ym mlwyddyn 5 Ysgol Bro Pedr yn ennill y 3edd wobr yn rownd derfynol gymnasteg Prydain – tipyn o gamp. Diolch i Mr Rees am ei hyfforddi. Derbyniodd wobr hefyd gan Gyngor Chwaraeon Ceredigon yn ddiweddar am ei lwyddiant. Pwy â wyr – efallai y gwelwn ni Filip yn y gêmau olympaidd yn y dyfodol.



Bu disgyblion o Ysgol Bro Pedr yn rhan o dîm Dyfed yn erbyn Gorllewin Morgannwg yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Ruth Davies ar ennill y naid uchel, i Jac Williams ar ddod yn 3ydd yn y 100m, i Lauren Hill a Rhodri Morgan am ddod yn 4ydd yn y naid hir ac i Owen Rowcliffe ar ddod yn agos iawn yn y naid uchel i fechgyn. Diolch yn arbennig i Claire Davies am ei chymorth.

**Ysgol Bro Pedr Iau**

Llongyfarchiadau i Jodie Evans o flwyddyn 4 ar ennill cystadleuaeth arlunio Siop sglodion Lloyds a derbyn tocynnau i fynd i'r Sioe Frenhinol yn Llanelwedd.

**Ysgol Bro Pedr - Campws Hŷn**

Agoriad Swyddogol Ysgol 3-19 Gyntaf Cymru: Agorwyd Ysgol Bro Pedr yn swyddogol gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Mr Huw Lewis, ar brynhawn Dydd Iau, 26 Mehefin. Dadorchuddiwyd plac yn y Dderbynfa newydd a diddanwyd y gynulleidfa gan griw o'r Ysgol Iau yn perfformio Cân Actol oedd yn esbonio ystyr arwyddair Ysgol Bro Pedr sef 'A fo ben bid bont'. Bu'r Pennaeth, Mr David Williams, y Cynghorydd Hag Harries, Bronwen Morgan, Elen ap Gwynn a Huw Lewis yn annerch y gynulleidfa a chyflwynodd y Prif Swyddogion newydd, Gethin Morgan a Sulwen Richards, blât i Mr Huw Lewis i goffau'r achlysur. Bu Mr Huw Lewis yn ymweld â rhai o adrannau'r ysgol hŷn a'r ysgol iau yn ystod y prynhawn hefyd.

Canolfan y Bont: Modiwlau 'Tuag at Annibyniaeth: Llongyfarchiadau mawr i Zac Griffiths sydd wedi llwyddo i gwblhau ei fodiwlau 'Tuag at Annibyniaeth'. Hoffai staff a disgyblion Canolfan y Bont ddymuno pob dymuniad da i Zac yn ei leoliad newydd yng ngholeg Beechwood. Da iawn ti Zac!

Rhaglen Gorwelion Newydd: Llongyfarchiadau mawr i Aleta Jones, Kieran Jones, Palmiro Radaszewski ac Alexia Jannette am gwblhau eu Rhaglen Gorwelion Newydd.

Y Chweched: Cynhaliwyd wythnos 'Cyfoethogi'r Cwricwlwm i Flwyddyn 12 rhwng 30ain o Fehefin a 4ydd o Orffennaf. Cafwyd amrywiaeth o weithgareddau fel sesiynau i'w paratoi nhw ar gyfer y dyfodol, cyngor ar y broses UCAS a chyllid myfyrwyr, ymweliadau â'r Senedd a Chanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd, sesiynau ar ddiogelwch y ffordd, cam-driniaeth alcohol/cyffuriau a gofal iechyd. Yn ogystal, cafwyd ymweliad gan Elin Jones, Aelod Cynulliad Plaid Cymru yng Ngheredigion cyn cloi'r wythnos gyda thaith i Brifysgol Aberystwyth a'r Llyfrgell Genedlaethol. Wythnos brysur ond buddiol dros ben i bawb.

Adran y Gymraeg: Codi arian i 'Cruse Yn ddiweddar, cododd disgyblion bl.12 a 7 Dewi £120 i 'Cruse' (Gofal mewn Galar) gyda stondin gacennau lwyddiannus amser egwyl. Diolch i chi gyd am gyfrannu cacennau a chodi swm sylweddol at achos teilwng iawn.

Clwb Cymraeg: Diolch yn fawr i aelodau o flwyddyn 12 am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn wrth drefnu gweithgareddau llawn sbort a sbri ar gyfer y Clwb Cymraeg i flwyddyn 7.

Mabolgampau - Campws Hŷn: Cafwyd diwrnod mabolgampau llwyddiannus iawn i flynyddoedd 7 - 10 yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i bawb ar eu llwyddiannau yn ystod y diwrnod a diolch i bawb am gynorthwyo.



Ruth a Jac ein Llysgenhadon Chwaraeon Efydd ni yn derbyn tystysgrifau mewn seremoni wobrwyo am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ac hefyd yn derbyn tystysgrif hyfforddiant lefel 1. Llongyfarchiadau i'r ddau.

Unwaith eto eleni rydym yn falch o lwyddiant ein myfyrwyr. Mae'r mwyafrif helaeth o'n myfyrwyr wedi llwyddo cael mynediad i'w coleg / prifysgol dewis cyntaf, a phob myfyriwr wedi llwyddo symud ymlaen yn llwyddiannus i'r cam nesaf yn ei gyrfa addysgol.

Mae'r llwyddiant hwn yn binacl i'r bartneriaeth arbennig a fu rhwng y myfyrwyr, eu hathrawon a'r rhieni a fu yn eu cefnogi bob cam o'r ffordd.

David Williams
(Pennaeth Ysgol Bro Pedr)



Athletau: Bu Caitlin Page a Ffion Quan yn cynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth 'hill Running' yn yr Eidal yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i'r ddwy am wneud mor dda. Llongyfarchiadau i Caitlin hefyd, am ennill y ras 1500m a Ffion am ddod yn 3ydd yn y ras 800m yng nghystadleuaeth Athletau'r Ysgolion.

# Ysgol Bro Pedr



Gwobr Dug Caeredin: Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion o Fro Pedr sydd wedi cwblhau eu gwobrau Dug Caeredin Efydd ac Arian - Gwobr Arian: Ryan Bennet, Edward Bransden, Aron Dafydd, Fflur Davies, Meleri Davies, Ellen Edwards, Delor Evans, Molly Fretwell, Imogen Furlong, Catherine Merrow Smith, Kymberley Mills, Vic Peel, Steffan Roberts, Dewi Uridge, Tomos Williams. Gwobr Efydd: Christopher Barker, Miriam Cashel, Luigi Challis, Hannah Cooper, Sioned Haf Davies, Ryan Desouza, Sioned Fflur Evans, Ffion Ruth Jones, Jaeger Petry, Nathan Weller Pryce. Dengys diwydrwydd, dyfalbarhad ac ymrwymiad mawr gan y disgyblion. Mae'r staff oedd yn trefnu'r digwyddiadau, ynghyd â'r ysgol gyfan yn browd iawn o lwyddiant anhygoel y disgyblion wrth iddynt gwblhau'r wobr fyd enwog yma.

Annwyl rieni a ffrindiau,

Rydym am gymryd y cyfle yma i ofyn a oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut allwn ni wella ein hysgol. A oes unrhyw beth wedi tynnu eich sylw i wneud bywyd ysgol yn haws ac yn fwy effeithiol? A hoffech chi weld unrhyw welliannau i addysg a phrofiadau disgyblion yn Ysgol Bro Pedr? Fel ysgol, gwerthfawrogwn gefnogaeth Gwesty'r Glynhebog gyda'r fenter hon. Dyma eich cyfle chi i rannu eich syniadau ac o bosib ennill gwobr sef cinio dydd Sul i ddau yng ngwesty'r Glynhebog. Danfonwch eich syniadau naill ai drwy e-bost neu lythyr at Deiniol Williams, Pennaeth Cynorthwyol os gwelwch yn dda. Cadwch lygad am ganlyniad ar wefan yr ysgol a chyhoeddiad nesaf Llais Pedr. Byddwn yn hysbysu'r person gyda'r syniad buddugol.

Diolch yn fawr a phob hwyl

Deiniol Williams. Pennaeth Cynorthwyol

**Diolch**

Hoffai Lena Daniel, Llys Barcud, Cellan ddiolch o waelod calon i staff, rhieni a disgyblion Bro Pedr am bob carden, anrheg a dymuniad da a gafodd ar achlysur ei ymddeoliad ar ôl 34 blynedd ym myd addysg. Hefyd i ffrindau yn y gymuned am yr holl, yr anrhegion a'r cardiau. O ganlyniad i'r bore coffi a drefnwyd ganddi hi a'r disgyblion yn yr Ysgol ar ddiwedd tymor yr Haf trosglwyddwyd £350 trwy law Delor James i gronfa lleol Ieuenctid CRUSE. (Gyda llaw nid oes unrhyw wirionedd yn y stori mai casglu tuag at gronfa 'cruise' ymddeol oedd bwriad y fenter!) Pob hwyl i Ysgol Bro Pedr yn y dyfodol ac unwaith yn rhagor hoffai ddiolch i bawb am feddwl amdani!

# Llanwnnen

**Wyrion bach newydd**

Llongyfarchiadau i Gwyn a Mandy Thomas, 16 Bro Grannell ar ddod yn ddatcu a mamgu dwy waith o fewn rhai wythnosau. Mab bach, William Cai Ellis Rees i Nia ac Aled ym Machynlleth a Macs i Hayley a Sion yn Llanfihangel ar Arth. Dymuniadau gorau i chwi gyd.

**Pennaeth**

Llongyfarchiadau i Menna Sweeney [merch John a Glenys, Penpompren] ar gael ei hapwyntio yn Bennaeth Ysgol Gynradd Plascrug, Aberystwyth yn ystod yr Haf. Pob dymuniad dda iddi yn ei swydd newydd.

**Diolch**

Dymuna Magw Hughes, Pantydderwen ddiolch i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch o galon.

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau i Luned Medi Jones, Blaenwaun-ganol, ar ei chanlyniadau TGAU yn ddiweddar ac hefyd ar ennill cymhwyster achubwr bywyd (lifeguard) Lefel 2 ym mhwll nofio Llambed dros yr haf.

# Cwmsychpant



Glenys [gynt o Dyngrug Isaf] a'i gŵr Dafydd o Benegoes, a'u merched yn dilyn ennill cystadleuaeh 'Grassland Farming' yn y Sioe Frenhinol.

**Gwibdaith yr Ysgol Sul**

Ar ddechrau mis Awst aeth llond bws o blant, rhieni a ffrindiau ar daith lawr i Sŵ Bryste. Cafwyd diwrnod braf iawn yno gyda'r plant yn gweld y gwahanol anifeiliaid ac yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau o gwmpas y Sŵ. Galwyd nôl am sglodion yn Cross Hands a dychwelwyd adref gyda phawb yn flinedig iawn ond wedi mwynhau pob munud.

**Ar wellhad**

Braf yw gweld Eifion Jones, Talar Wen yn gwella ar ôl iddo dderbyn driniaeth i'w lygad yn ystod yr haf.

**Treialon Cŵn Defaid a Sioe Cwmsychpant 2014**

Ar ddydd Sadwrn, Awst 9fed 2014 cynhaliwyd Treialon Cŵn Defaid a Sioe Flynyddol Cwmsychpant a'r Cylch ar gaeau Waun, Rhydowen drwy garedigrwydd Mrs Ella a Vernon Davies.

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn unwaith yn rhagor ac eleni roedd yr elw yn mynd tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Codwyd swm sylweddol a fydd yn cael ei drosglwyddo nes ymlaen yn y flwyddyn.

Bu'r Treialon ymlaen yn gynnar iawn y bore tan yr hwyr ac roedd y cynnyrch a welwyd yn y babell o safon uchel. Cynhaliwyd mabolgampau i'r plant ac roedd yr arddangosfa o hen beiriannau yn werth i'w gweld. Ein Llywydd eleni oedd Mrs. May Lewis, Wenllys, Stryd Newydd, Llanbed a braf iawn oedd cael ei chwmni. Am dri o'r gloch cafwyd araith bwrpasol ganddi, a mawr yw ein diolch am ei rhodd haelionus.

Ar ddiwedd y prynhawn cynhaliwyd ein gwerthiant blynyddol llwyddiannus gyda Sion Jenkins a Dewi Jones wrth y llyw.

I gloi'r diwrnod penigamp, cafwyd adloniant gan DJ Bry tan hwyr y nos.

Gwelir isod rhestr enillwyr y Dydd: Treialon Cwn Defaid - Cenedlaethol Agored - Meirion Jones gyda Jess. Nofis Cenedlaethol - Meirion Jones gyda Nip. Agored De Cymru - Glyn Howells gyda Fly. Nofis De Cymru - Dan Jarman gyda Pero. Gwinoedd – Margaret Jones, Caeglas, Cwrtnewydd. Cyffeithiau – Margaret Jones, Caeglas, Cwrtnewydd. Coginio – Wendy Davies, Caerwenog, Penffordd. Gwaith Llaw – Joan Jones, Llainwen, Llanbed. Crefft – Dilys Godfrey, 41 Heol Hathren, Cwmann. Ffyn – Andrew Jones, Cwmgwyn, Llanbed. Ffotograffiaeth - Sara Thomas, Cross Roads, Llanllwni. Arlunio Plant - Bl. 2 a thano - Katy Moyes, Ysgol Cwrtnewydd. Bl. 3 a 4 – Jano Evans, Ysgol Talgarreg. Bl. 5 a 6 – Guto Ebbsworth, Ysgol Llanwnnen. Adran Plant 8 a thano – Elen Morgan, Rhyd y felin, Drefach. 9 a than 12 – Lleucu Rees, Caeronnen, Penffordd a Lois Jones, Blaenhirbant, Cwmsychbant. 12 a than 17 - Meinir Davies, Caerwenog, Penffordd. Adran Blodau - Sara Humphreys–Jones, Frongelli, Alltyblaca. Celfyddyd Blodau – Victor Edwards, Tyddyn Gwyn, Rhydowen. Cynnyrch Gardd – Aeron Davies, Llainffynnon, Cribyn. Adran Geffylau Pencampwr yr Adran Geffylau – Dai Davies, Clogfryn, Aberaeron. Pencampwr yr Adran Geffylau i Blant – Steffan Jarman, Llanwnnen, Noa Harries, Plwmp, Alaw Jones, Talgarreg a Charlotte, Talgarreg. Adran Ddefaid - Pencampwr Croesfridio – Davies, Fronheulog, Llanwenog. Taleb gwerth £25 – Morgans, Glwydwern, Gorsgoch.



Dymuna pwyllgor Treialon Cŵn Defaid a Sioe Cwmsychpant ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad a chymorth a dderbyniasant i wneud sioe eleni eto yn un llwyddiannus.

# Gorsgoch

**Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog 2014**

Cynhaliwyd 34ain Sioe Amaethyddol, Cynnyrch, Ceffylau a Hen Beiriannau Gorsgoch ar gaeau Glwydwern, Llanwnnen, trwy garedigrwydd Elfyn a Sharon Morgans ar ddydd Sadwrn, 16eg o Awst.

Ynghyd â'r cystadlaethau yn y babell ac ar y cae, cafwyd arddangosfa sgiliau cŵn gan y 'Cantref Gwaelod Agility Club', arddangosfa o gynnyrch alpaca a chrefftau gan 'Bird Farm Alpacas', coetio, paentio wynebau, mabolgampau i'r plant ac ocsiwn lwyddiannus iawn. Bydd cyfran o elw'r sioe eleni yn cael ei roi i Ambiwlans Awyr Cymru.

Cynhaliwyd Eisteddfod Ddwl gyda'r nos am y tro cyntaf eleni. Cafwyd noson llawn chwerthin gyda thalentau amrywiol timoedd Mydroilyn, Sarn Helen, C.Ff.I. Llanwenog a thîm y Sioe – llongyfarchiadau i C.Ff.I. Llanwenog am gipio'r blaen ar y funud olaf.

Er mawr foddhad i aelodau'r pwyllgor a chefnogwyr y sioe, cafwyd sioe lwyddiannus iawn o ran niferoedd a safon y cystadlu. Cyflwynwyd y gwobrau gan y Llywyddion, Mr a Mrs Huw Davies, Y Gweithdy, Brynteg, i'r canlynol:

CEFFYLAU: Ceffylau mewn llaw – Pencampwr – Eirian Thomas, Llysfaen Isaf. Is-bencampwr – Euros Davies, Llys y Wawr, Cwmsychpant; Marchogaeth – Pencampwr – Meredydd Davies, Crud y Barcud, Cribyn. Is-bencampwr – Rhiannon Evans, 3 Bro Gernos, Coedybryn; Hynodion y Ceffylau – Lola ac Ivy Thomas, Nant y Gwrdy, Mydroilyn; Pencampwr yr adran geffylau, ac yn derbyn cwpan Hang-On yn roddedig er cof am Tim a Dorothy Thomas, Ffynon Rhys – Eirian Thomas, Llysfaen Isaf gyda Llanwnnen Alaw Mai.

DEFAID: Defaid Llanwenog – Pencampwr – Huw Evans, Alltgoch. Is-bencampwr – Huw Evans, Alltgoch. Gwobr Cymdeithas Defaid Llanwenog – Huw Evans, Alltgoch. Defaid Speckled – Pencampwr – Teulu Morgans, Glwydwern. Is-bencampwr – Jones, Blaenblodau. Defaid Continental – Pencampwr – Teulu Owens, Glantre, Pontsian. Is-bencampwr – Huw Evans, Alltgoch. Unrhyw frîd "Lowland" arall – Pencampwr – John Jones, Penrheol, Cwmsychpant. Is-bencampwr – Jones, Neuadd Fawr, Llanwnnen. Unrhyw frîd mynyddig arall – Pencampwr – Huw Jenkins, Llysfaen Uchaf. Is-bencampwr – Price, Gelliwrol, Cwmann. Oen i'r cigydd – Pencampwr – Teulu Owens, Glantre, Pontsian. Is-bencampwr – Teulu Owens, Glantre, Pontsian. Pencampwr y Pencampwyr yr adran ddefaid, ac yn ennill cwpan her Wyn Morgans, Glwydwern – Teulu Owens, Glantre, Pontsian. Young handler – Nia Morgans, Glwydwern. Barnu Wyn Tew C.Ff.I – Steffan Davies (Bwlchmawr), Caerfyrddin.

HEN BEIRIANNAU: Pencampwr, ac yn ennill cwpan her Jim Evans, Fronwen – Wil Hughes, Falcondale Drive, Llanbedr Pont Steffan

GWARTHEG BIFF: Pencampwr – Teulu Hughes, Cwmhendryd. Is-bencampwr – Teulu Dafis, Moelifor, Talgarreg.

GWARTHEG GODRO: Pencampwr – Teulu Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd. Is-bencampwr – Teulu Davies, Fron, Pontsian.

DOFEDNOD: Pencampwr – Paul Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd. Is-bencampwr – Mrs Cooke, Wern Newydd, Tŷ Mawr, Llanybydder.

Y BABELL: Cynnyrch Gardd – Aeron Davies, Cribyn; Coginio – Esyllt Ellis Jones, Pantlleinau, Bontnewydd; Gwinoedd – Margaret Jones, Cae Glas, Cwrtnewydd; Cyffaith – Margaret Jones, Cae Glas, Cwrtnewydd; Gwaith Llaw – Sally Rees, Ty Pair, Llanarth; Blodau – Eirwen Evans, Gwynfryn, Gorsgoch; Cystadlaethau 18 oed neu iau – Ffion Jenkins, Tyllwyd, Maestir; Cystadlaethau 26 oed neu iau – Menna Williams, Heol y Gaer, Llanybydder; Adran Plant Ysgol Gynradd: Blwyddyn 6 neu iau – Dylan Thomas, Castell Du, Llanwnnen; Blwyddyn 2 neu iau – Elen Morgan, Rhyd y felin, Drefach; Ysgol â'r marciau uchaf yn yr adran arlunio, ac yn ennill tarian her Cyngor Cymuned Llanwenog – Ysgol Cwrtnewydd; Cwpan Her Blaencathal, am focs o gynnyrch gardd – Bessie Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd; Pencampwr y babell, ac yn ennill cwpan her Malcolm Fuller – Margaret Jones, Cae Glas, Cwrtnewydd.

Hoffai pwyllgor y sioe ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl i'r sioe y flwyddyn nesaf.

# O'r Cynulliad

Dros haf eleni, bu nifer o gyfleon i gofio'r Rhyfel Byd Cyntaf. Er gwaetha'r ffaith fod yma yng Ngheredigion un o'r 'pentrefi diolchgar' na chollodd un o'i meibion– sef Llanfihangel y Creuddyn – prin yw'r teuluoedd na chafodd mo'u effeithio gan y gyflafan a gychwynodd gan mlynedd yn ôl.



Cymerais y cyfle i ymchwilio tipyn i'm hanes teuluol fy hun, gan ddarganfod toreth o lythyron gan frawd fy hen nain, Watkin Jones Davies o Goedparc, Silian, ger Llambed.

Mae'n stori drist. Roedd Watkin, neu Wat, yn un o ddau frawd a deg chwaer. Gan mai ef oedd yr unig fachgen ar ôl ar y ffarm, doedd dim rhaid iddo fynd i frwydro, ond penderfynodd ei dad y dylai ymrestru gyda'r Iwmyn, a chynigiodd geffylau er mwyn i'r fyddin ei gymryd. Ddychwelodd Wat byth i redeg y fferm deuluol; bu farw dridiau ar ôl y cadoediad, ar 14 Tachwedd 1918, o ganlyniad i glwyfau a dderbyniodd ym mrwydr Epehy ar y Somme ddeufis ynghynt.

Roedd yn ysgrifennu'n fynych at ei chwiorydd am ei brofiadau yn y rhyfel. Danfonodd gardiau o Cairo ac Alexandria, a sôn am ymweld â llefydd y clywodd amdanynt yn yr Ysgol Sul. Yn ei lythyron, crybwyllodd ddiflastod bywyd y fyddin, er hoffter o dderbyn parseli o gartre, ac am golli'r rhan fwyaf o'i blatŵn.

Mae'r ffaith iddo ymladd mewn brwydrau yn Gaza a'r Dwyrain Canol yn naturiol yn gwneud i rywun feddwl am yr erchyllderau sy'n digwydd yno heddiw. Mae profiad Wat, enwau'r cannoedd sydd ar gofgolofnau ar hyd a lled y sir, a'r plac ym Mhrifysgol Aberystwyth i Hermann Ethé druan a erlidiwyd o Geredigion yn 1914, yn ein atgoffa pa mor fregus yw heddwch.

Llun: Watkin Jones Davies, Coedparc, Silian, ar gefn ei geffyl.

## Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET

**Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc**

I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 7 | 8 | 6 | | 2 |
| 5 | | | 6 | 3 | | 1 | | 7 |
| | | | | | | | | |
| | 9 | | 8 | | 2 | | | 1 |
| | | 2 | | | | 4 | | |
| 7 | | | 1 | | 6 | | 9 | |
| | | | | | | | | |
| 8 | | 1 | | 2 | 9 | | | 6 |
| 9 | | 4 | 7 | 6 | | | | |

**Atebion Swdocw mis Gorffennaf:** Llongyfarchiadau i **Avril Williams, Y Fedw, Cwmann**, a diolch i bawb arall am gystadlu: Glenys Davies, Rhydybont, Llanybydder; Bryn Hughes, Cwmere, Felinfach; Eurwyn, Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder a Joan Stacey, Tynwaun, Ffaldybrenin.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 6 | 9 | 2 | 5 | 4 | 8 | 3 | 7 |
| 7 | 8 | 5 | 3 | 1 | 6 | 2 | 4 | 9 |
| 2 | 3 | 4 | 7 | 9 | 8 | 5 | 6 | 1 |
| 8 | 9 | 6 | 4 | 2 | 3 | 7 | 1 | 5 |
| 3 | 5 | 7 | 1 | 6 | 9 | 4 | 8 | 2 |
| 4 | 2 | 1 | 5 | 8 | 7 | 3 | 9 | 6 |
| 9 | 7 | 2 | 8 | 3 | 1 | 6 | 5 | 4 |
| 6 | 4 | 3 | 9 | 7 | 5 | 1 | 2 | 8 |
| 5 | 1 | 8 | 6 | 4 | 2 | 9 | 7 | 3 |

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,
Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest
01545 571510
www.sianti.org



Toriad Taclus

Heol Caerfyrddin
Llanybydder
Sir Gaerfyrddin

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
*Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref*


Ymgynghorwyr Yswiriant
*Eryl Jones Cyf*
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur
Teithio
Cyfrifoldeb
Yswiriant tŷ/cynnwys
Fferm a busnes
Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562
Authorised & Regulated by The Financial Conduct Authority

T. Emyr Jones
Adeiladwr



Araul, Cwmann
01570 423921
07867 945174

# Pencarreg

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau i Heiddwen Tomos, Dol Mebyd ar gael yr 2il wobr yng nghystadleuaeth y Fedal Ddrama.

**Arholiadau**

Llongyfarchiadau i Sian Elin yn ei harholiadau lefel A, ardderchog. Ymlaen nawr i Brifysgol Aberyswtwyth i ddilyn Cwrs Drama a Chymraeg. Hoffai hi ategu ei diolch am y rhodd caredig a'r cardiau! Diolch! Pob lwc.

**Diolch**

Dymuna Ruth Min y llyn a'i theulu ddiolch o galon am yr holl gardiau a negeseuon o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt oddi wrth perthnasau, cymdogion a ffrindiau yn dilyn marwolaeth ei merch.

Gwerthfawrogwyd yn fawr iawn eich ymdrechion i fod yn bresennol yn yr angladd yn Amlosgfa Llanelli. Diolch i bawb a gyfrannodd at Uned Cancr y Fron, Ysbyty Llanelli. Mae eich caredigrwydd a'ch haelionni yn werthfawr. Bydd y swm terfynol yn y rhifyn nesaf.

**Graddio**

Llongyfarchiadau i Chloe Jones, Maescanol [wyres Ruth] ar dderbyn gradd 2:2 yn Athroniaeth /Philosophy o Brifysgol y Drindod Dewi Sant ac hefyd i Aled Jones o Aberdâr [ŵyr Ruth] ar ddebryn gradd 2:1 ym Mathemateg o Brifysgol Caerdydd. Pob lwc i chwi eich dau i'r dyfodol.

# Cneifio

**Cneifio Llanbed**

Cynhaliwyd diwrnod llwyddiannus o gneifio ar fferm Capeli, Cribyn yn mis Gorffennaf drwy garedigrwydd y brodyr Williams. Daeth nifer o gneifwyr o bob rhan o Gymru a Lloegr, yn ogystal â dros y dŵr i gystadlu. Roedd yna 190 o gneifwyr wedi cymeryd rhan erbyn diwedd y dydd. Bu cryn ddiddordeb yn ffeinal yr adran iau, gyda Steffan Jenkins, Tyllwyd yn dod yn ail, a phedwerydd yn yr adran ganol. Cafwyd gornest rhwng Seland Newydd a Chymru gyda Dafydd Jones, Ystrad Meurig yn canu y ddwy anthem. Enillwyd yr ornest gan Seland Newydd. Llywydd y dydd i fod oedd Mr Dewi Jenkins, ond yn anffodus, fe fu farw cyn y diwrnod. Roedd wedi edrych ymlaen i fod yna. Talwyd teyrnged iddo, a bu munud o dawelwch er cof amdano. Dymuna'r pwyllgor estyn pob cydymdeimlad â'r teulu. Diolch i bawb am ei gwaith o baratoi a gweithio mor galed ar y dydd. Mae'r diwrnod wedi tyfu i fod yn achlysur pwysig yng nghalendr cneifwyr o bob rhan o'r byd erbyn hyn. Diolch i'r holl noddwyr am ei cefnogaeth bob blwyddyn. Bydd siec o £400 yn cael ei gyflwyno o ganolfan y Bont a Ymchwil y Galon ar y 12fed o Fedi.

# Yn y Gegin gyda Gareth

**Cynhwysion y Cynhaeaf**

Braf yw bod yma yng nghegin Clonc ar ôl cael hoe dros yr Haf. Mae'r Haf wedi bod yn gyfnod prysur i mi gyda'r holl ffeiriau bwyd, mudiadau yn ymweld â'r gegin ac arddangosfeydd coginio yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr.

Gyda'r tymor newydd daw Cynhwysion y Cynhaeaf i'r gegin a'u blas amrywiol bob amser yn gyffrous. Mae'n gyfnod creu jam a phicl ar gyfer misoedd y Gaeaf.

Mae eleni wedi bod yn dymor arbennig i hel mwyar, a maent yn aeddfed bythefnos yn gynharach nag arfer i'w hel, felly gwnewch y gorau ohonynt. Does dim yn well ac yn fwy pleserus na 'crwmbwl' mwyar a hufen.

Gan obeithio am 'Ha' bach Mihangel'felly, mwynhewch fanteision mis Medi.

*Gareth*

**Tomatos Wedi Pobi**

Cynhwysion

4 tomato mawr
25gm o fenyn
1winwnsyn wedi'i dorri'n fân
1 ewyn o garlleg wedi'i wasgu
2 ddarn seleri
50gm briwson bara brown
1 llond llwy fwrdd o berlysiau
1 llond llwy fwrdd olewydd wedi'u malu

Dull

1. Trowch y ffwrn i 180 C
2. Gosodwch y tomatos ben i waered, a sleisiwch y gwaelod i ffwrdd.
3. Crafwch y cnawd a'r canol, a'u cadw. Trowch i ddiferi'r suddion i bapur cegin.
4. Toddwch y menyn, ffriwch y winwns, garlleg a'r seleri nes yn feddal, yna trowch y bara, olewydd, perlysiau a'r cnawd tomato iddo, a phupur a halen i flasu.
5. Llenwch y tomatos, gosodwch y clawr arnynt, a phobwch am tua 20 munud.

(Os am gloriau crisp, tynnwch nhw i ffwrdd hanner amser, a'u rhoi o amgylch y tomatos.)

**Pei gellyg, sinsir a mwyar**

Cynhwysion

125 gm margarîn
250 gm blawd codi
1 ŵy wedi'i wahanu
2 llond llwy fwrdd o ddŵr

50 gm briwson bara brown
2 bwys gellyg (pears)
150 gm mwyar duon
1 llond llwy fwrdd siwgwr brown
Croen a sudd 1 oren
½ llwy de o bowdwr sinsir

Dull

1. Gosodwch y margarîn, melynŵy, dŵr, a 2 llond llwy fwrdd o flawd mewn powlen, a'u cymysgu â fforc, yna ychwanegwch y blawd i greu toes.
2. Rholiwch yn gylch 13″ a gosodwch ar dun pobi.
3. Sgeintiwch â'r briwsion bara. Pliciwch y gellyg, sleisiwch, a'u gosod ar y bara gyda'r siwgwr, mwyar, croen oren a 2 llond llwy fwrdd o'r sudd oren. Codwch y toes nôl dros yr ymyl, a brwsiwch â'r gwyn ŵy. Pobwch ar 190C, nwy 5 am 1 awr.
4. Gweinwch â chwstard oren.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partïon

# Llanfair Clydogau

**Sefydliad y Merched**

Cynhaliwyd picnic blynyddol y mudiad ar Orffennaf 17eg yn Ffosyffin, cartref Shelly Harstad-Smith. Roedd yn noson gynnes o Haf ac yr oedd y tŷ a'r gerddi ar eu gorau yn yr haul uwchben yr afon a'r olygfa yn fendigedig.Yn ystod y picnic mi aeth yr aelodau am dro i lawr i'r Afon Clywedog Uchaf ar ôl iddynt fwynhau bwyd blasus o'r safon uchaf, rhai ar y lawnt a rhai yn yr adeiladau allan. Noson i'w chofio yn bendant.

**Bowlio Mat Byr**

Er fod y tymor bowlio mat byr heb gychwyn eto, mae aelodau brwd y grŵp wedi dechrau ymarfer yn barod. Mae pawb yn edrych ymlaen at y tymor newydd.

**Agor y Bont.**

Mae'r bont hanesyddol sydd yn rhan o'r llwybr cyhoeddus sy'n mynd o Dafarndy yng Nghellan yn groes yr Afon Teifi i'r Felin ar Heol Llanfair wedi ei hailagor ar ôl llawer o waith gan Gyngor y Sir yn ailadeiladu y grisiau a gatau y bont. Mae'r bont yma yn bwysig iawn i gerddwyr yr ardal gan mai hon yw yr unig bont rhwng pentref Llanfair a thref Llanbed lle gellir croesi'r Afon Teifi.

**Arddangosfa Gelf**

Cafodd arddangosfa gelf bwysig ei chynnal am y tro cyntaf yn Llanfair fel rhan o Daith Gelf Ceredigion. Cafodd yr arddangosfa ei lleoli yn Y Gorlan, ar Fferm Pentre lle yr oedd cymysgedd ddiddorol o waith mewn olew, dyfrlliw, cerfiadau leino, gwaith felt llaw, midia cymysg, ffotograffiau a chardiau. Yr artistiaid oedd yn dangos eu gwaith oedd Aerwen Griffiths, Claire Parsons, John Petts, Rose Florence, Sarah James, Sue Powell a Stephen Florence. Roedd y lleoliad yn hyfryd a bu y fenter yn un llwyddiannus dros ben.



**Arddangosfa y Rhyfel Byd Cyntaf.**

Dros y misoedd diwethaf mae grŵp hanes Llanfair wedi bod yn weithgar dros ben yn casglu gwybodaeth, tystysgrifau ac artifactau tuag at arddangosfa ar y Rhyfel Byd Cyntaf. Cafodd yr arddangosfa, a fu yn llwyddiannus iawn, ei chynnal yn Neuadd y Pentref yr agoriad ar ddydd Iau Awst 21ain. Gyda'r teitl 'Not Forgotten' roedd yr arddangosfa yn canolbwyntio ar y cyfnod 1914 -1918, ac yn edrych nid yn unig ar y rhai a gafodd eu lladd tra yn gwasanaethu yn y fyddin ond hefyd y rhai a gafodd eu niweidio ond a ddaethant adref.

Dangosodd yr arddangosfa hefyd dipyn o hanes am sut yr oedd pobl y pentref yn byw yr adeg honno ac effaith y Rhyfel arnynt ac ar fywyd ehangach yn y sir.Yng Ngheredigion, Sir Aberteifi yr adeg honno, roedd pwysau ar y bobl i ymuno â'r lluoedd arfog a'r effaith oedd hyn yn cael ar yr economi lleol. Roedd hefyd yn dangos dyfyniadau o bapurau lleol yn dweud hanes y rhyfel, yr arfau a ddefnyddiwyd, rhan menywod yn y rhyfel, effaith a thriniaeth ceffylau ar y llinell orllewinol, a beirdd ac artistiaid enwog y rhyfel. Hefyd roedd rhai o drigolion y pentref wedi cael cyfle i arddangos hanes teulu a laddwyd, aeth ar goll neu a anafwyd yn y rhyfel erchyll yma.

**Ras Hwyaid**

Roedd yn brynhawn hyfryd pan ddaeth nifer dda o blant ac oedolion ynghyd i rasio hwyaid ar Afon Clywedog. Cafwyd llawer o sbri a gweiddi ac yn y diwedd gweld hwyad Dilys Nantymedd yn cyrraedd y brig, gyda John Green yn ail a Liz Gelli yn drydydd. Ar ôl y Ras aeth pawb yn ôl i'r neuadd lle roedd te wedi ei baratoi gyda phawb wedi cyfrannu bwyd. Cafwyd prynhawn o hwyl fawr a chymdeithasu. Diolch i Linda Quelch a'u phwyllgor am drefnu y dydd ac i bawb a brynodd hwyaid, hefyd i'r grŵp bach dewr a fentrodd i'r afon yn droednoeth i gasglu'r hwyaid ar ôl y ras.

**Cydymdeimlad**

Hoffem gydymdeimlo â theulu Y Quans, Blaencwm, a Sŵn yr Afon ar golli Len, brawd yng nghyfraith Iris ac ewythr i Wendy a Martin. Roedd Len Quan wedi byw yn Ne Affrig ers blynyddoedd lawer. Hefyd trist oedd clywed am farwolaeth Rory Mayer, Fronafon, Heol Llanfair. Estynnwn gydymdeimlad â'r teulu.

**Llongyfarchiadau.**

Pleser mawr oedd clywed am lwyddiant Rebecca Miller, Ffion Quan, Edward Branston a Ceri Cranfield yn eu haroliadau. Llongyfarchiadau cynnes i chwi i gyd a phob llwyddiant i chwi yn y dyfodol wrth fynd ymlaen i ddosbarth chwech neu i'r coleg neu pa bynnag lwybr rydych yn mynd i'w ddilyn.

Pleserus oedd clywed hefyd fod Wendy (Woodlands gynt ) sydd yn byw yn Stratford on Avon nawr, wedi dod yn famgu am y tro cyntaf .



Pencampwr y Rhyngfrid yn Adran y Defiad yn Sioe Llanddewi Brefi oedd Hwrdd Mynydd Cymreig dwy flwydd oed a ddangosir gan Dewi Williams, Esgermaen, Llanfair Clydogau.


# Sioe Llambed




Enillwyd Cwpan y mwyaf o farciau yn adran Clybiau Ffermwyr Ifanc Sioe Llambed gan Angharad James, Castell Du, Llanwnnen.




Sara Elan Jones, Cwmann, yn ennill Cwpan am y mwyaf o farciau yn Adran Bl 5 a 6 yn Sioe Llambed.



Pencampwr Gwrywaidd yn y Defaid Llanwenog yn Sioe Llambed yn cael ei ddangos gan Huw Jenkins, Llysfaen Uchaf, Llanwnnen.

# Gweithgareddau'r haf





Carnifal Llambed – Brenhines y Carnifal oedd Narissa Jones ac fe'i coronwyd gan y Maer Cyng Elsie Dafis. Ei morynion a'i gweision bach oedd William Hoy, Molly Burgess, Grace Lambert a Brynmor Gibbons.

Y thema oedd Gwledydd y Byd - enillwyd y Cwpan o dan 5 oed gan - 'Spanish Lady Seniorita' - Tia Gilbert.



Paul Williams, Cwrtnewydd yn dangos ei Black Minorca Benywaidd a enillodd y Pencampwr yn y 'Light Breeds' yn y Sioe Frenhinol.



Picton Jones o Lanwnnen gyda ei Dark Brahma gwrywaidd a enillodd y gilwobr yn y Sioe Frenhinol.



Sefydliad y Merched

Gwyneth, Noelene a Mary, Sefydliad y Merched, Coedmor wedi cyrraedd Picws Du uwchben Llyn y Fan Fach, ar ddiwrnod glawiog a niwlog i drosglwyddo Baton canmlwyddiant y Sefydliad o Sir Gâr i Sir Maesyfed.

# Sefydliad y Merched

Dechreuwyd Dathliadau'r Canmlwyddiant Sefydliad y Merched 2015 yn Nyffryn Teifi ar Orffennaf 18fed gyda throsglwyddiad y 'baton'.

Daeth tua 130 o aelodau ynghyd ar y Cei yn Aberteifi wedi te blasus y dathlu yn Neuadd y Dref lle'r croesawyd Elin Jones AC, Bronwen Morgan Prif Weithredwraig Cyngor Sir Ceredigion, Cynghorydd John Adams-Lewis Cadeirydd y Sir a Graham Evans, Maer Tref Aberteifi ac Ann Jones Cadeirydd Cymru o Sefydliad y Merched. Rhoddwyd anerchiad byr gan Gadeirydd y Sir o Sefydliad y Merched – Brenda Wright a chroesawyd dau berson o'r dref i adrodd hanes y dref nodedig hon.



Trosglwyddwyd y baton i Ann Newbury, Cadeirydd SYM Sir Benfro ar Bont Gerdded Aberteifi gyda 12 o luniau adeiladau enwog y Sir a'r aelodau wrth eu gwaith crefftau a theithiau cerdded a'u chwaraeon – hyn oll yn symud ymlaen i Sir Benfro ac yn teithio trwy Gymru benbaladr a Lloegr cyn dod i derfyn ei thaith yn Llundain yn Mehefin 2015, pan fydd ein cynhadledd canmlwyddiant yn cael ei gynnal yn Neuadd Albert. Edrychwn ymlaen i'r holl ddathliadau yn 2015 a thaith i Llanfair PG Sir Fôn lle cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r sefydliad ym Medi 1915.

**Dechreuad Sefydliad y merched ym Mhrydain**

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf sefydlwyd y Sefydliad y Merched cyntaf ym Mhrydain. Digwyddodd hyn yn Llanfair PG yn Sir Fon ym Medi 1915. Erbyn hynny roedd dros wyth cant o sefydliadau wedi eu cychwyn yn Canada. Yno y dechreuwyd Sefydliad y Merched cyntaf yn y byd a hynny yng nghymuned fechan Stoney Creek yn 1897.

Sylfaenydd y Sefydliad oedd Miss Adeilade Hoodless. Dioddefodd hi y trallod o golli plentyn – rhywbeth arswydus o gyfarwydd y pryd hynny. Roedd anwybodaeth ac aflendid yn lladd un o bob pump plentyn. Doedd merched ddim yn cael eu dysgu na'u paratoi i wynebu mamolaeth. Yn hytrach, gadewid hwy i ymdopi dros eu hunain. Llaeth halogedig achosodd dranc ei phlentyn hi ond roedd Mrs Hoodless yn benderfynol i newid y gyfundrefn ac achub eraill rhag goddef yr un golled. Rhoi addysg i fenywod fu nod ei bywyd tra'n cynnwys llawer o weithgareddau eraill. Dechreuodd gyrsiau Gwyddor Cartref i ferched a buan fu ei dyrchafiad i swydd Llywydd yr YWCA yn Canada. Credai y dylsai pob merch ddysgu am greu cartref a dinasyddiaeth. Ar ôl blynyddoedd lawer o arloesi a llwyddiant bu farw yn 1910. Trwy ei hymdrech ac egni ysbrydolwyd llawer o fenywod brwdfrydig i daenu gwaith a neges y WI dros wledydd eraill. Un o'r rheiny oedd Mrs Alfred Watt a deithiodd i Brydain. Yno profodd gryn wrthwynebiad ac ychydig iawn o frwdfrydedd cefnogol – yn enwedig gan y dynion nad oedd yn fodlon derbyn diddordeb eu gwragedd yn y fath syniadau cynhenid. Teithiodd Mrs Watt i Gymru ac i Sir Fon. Wele! Yno fe'i cyfarchwyd gan grwp a ddangosau mwy o frwdfrydedd na'r baged a welodd eisoes. Penderfynodd trefnu'r Sefydliad cyntaf ym Mhrydain yn Sir Fon ar Fedi'r 11eg 1915.

Y flwyddyn nesaf bydd y gyfundrefn ym Mhrydain yn dathlu ei chanmlwyddiant ac mae'r paratoadau ar y gweill yn barod.

Fis Gorffennaf eleni, ym Machynlleth gwelwyd defod arbennig pan y cludwyd baton seremonïol a oedd ar daith i bob sefydliad yn y wlad o Sir Drefaldwyn i Geredigion. Trosglwyddodd cynrychiolydd Carno y tlws i Mrs Nona Williams, cynrychiolydd Ceredigion ac aelod o Sefydliad y Merched Llambed – yr hynaf yng Ngheredigion. Sefydlwyd hwn ym mis Mehefin 1916.

Trefnwyd yr achlysur arbennig hwn gan Mrs Amanda Welday, Cadeirydd Ffederasiwn Merched Sir Drefaldwyn a Mrs Brenda Wright, cadeirydd Ffederasiwn Ceredigion. Lleoliad hyn oll oedd Canolfan Owain Glyndwr ym Machynlleth.

# Llwyddiant yn y sioeau bach




Yn Adran Goginio Sioe Llambed enillwyd y Cwpan am y pwyntiau uchaf a'r wobr arbennig Silver Salver gan Sian Jenkins, Castell, Heol Llanfair.




Yn Adran y Gwaith llaw Sioe Llambed enillwyd y Cwpan am y pwyntiau uchaf gan Eluned Davies, Dihewyd ac aeth y wobr arbennig i Joan Jones, Llambed.



Nia Morgans, Glwydwern yn arwain ei hoen i ennill y wobr gyntaf.



Mrs May Lewis, Wenllys, Stryd Newydd, Llambed ond gynt o Talardd, Llanwnnen llywydd Sioe Cwmsychpant 2014 gyda llu o enillwyr y dydd.



Enillwyr Sioe Gorsgoch gyda'r Llywyddion Huw a Nans Davies, Y Gweithdy, Brynteg.



Enillwyr Sioe Llanllwni gyda'r Llywyddion Mr a Mrs Tom Harries, Castle View, Llanllwni.

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE
ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR
33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 🖷 01570 423244

Carpedi

Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel, Cladinau Wal, yn ogystal â Gwelyau, Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Llogi Peiriannau
G + C Plant Hire
Gwilym Evans
25 Heol-y-Dderi
Llanybydder
07971041676
Cysylltwch â ni am unrhyw fath o waith ceibo a mân waith sifil

REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones

Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

# Llangybi

**Golff**

Llongyfarchiadau i Christopher Regan o Glwb Golff Cilgwyn, Llangybi am gael ei ddewis i gynrychioli tîm Dyfed unwaith eto eleni. Chwaraeodd yn erbyn tri thîm sef Aberhonddu a Radnor, Gloucestershire a Morgannwg. Llwyddodd Chris i ennill chwe gêm allan o chwech. Pob lwc iddo i'r dyfodol.

Hefyd, dymunwn yn dda i Dion Teilo Regan o Ysgol Y Dderi, Llangybi a fydd yn cystadlu ym Mhencampwriaeth y 'Mini Masters' yng Nghaerfyrddin hwyrach yn yr Haf. Dymuniadau gorau i'r ddau.

**Merched y Wawr**

Cofiwch am y gyngerdd yn Coleg Llambed ar nos Sadwrn, Medi 6ed ac am ymweliad â'r Ganolfan Gwiltiau yn Llambed ar brynhawn Dydd Mercher, Medi 10fed.

**Cwrdd Diolchgarwch**

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Maesyffynnon ar Fedi 17eg am 2.00 y.p. Y pregethwr gwadd yw y Parch Tomos Evans, Llanymddyfri [Betws gynt]. Un oedfa fydd. Croeso cynnes i bawb.

**Adferiad**

Dymunir adferiad buan i bawb a fu yn sâl yn ystod yr haf.

**Profedigaeth**

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â phob teulu a'u cysylltiadau a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchion i bawb a fu yn llwyddiannus yn eu haroliadau. Da iawn chi a daliwch ati.

**Rhifyn mis Hydref**

Yn y Siopau
**Hydref 2il**

Erthyglau, Newyddion a Lluniau i law erbyn
**Medi 22ain**

Gofynnir am gyfraniad o

**£5**

yn unig er mwyn rhoi neges o ddiolch ym Mhapur Bro Clonc os gwelwch yn dda.

# Mis y Papur Newydd

## Colofn Dylan Iorwerth

**Pan oedd Llanbed y brifddinas nofelau**

Fe fydd darn bach o hanes Llanbed yn dod yn fyw unwaith eto yng Ngŵyl Golwg, ddydd Sul, Medi 14 eleni.

Ychydig sy'n cofio erbyn heddiw mai ein tre' fach ni oedd prifddinas nofelau Cymru am un cyfnod byr.

Un digwyddiad i'n hatgoffa ni fydd sgwrs efo Ioan Kidd, enillydd Llyfr y Flwyddyn eleni ac un a oedd yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Cymru Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan.

Yno y dechreuodd o ysgrifennu o ddifri ac yno yr oedd o adeg cyhoeddi ei nofel gynta', Cawod o Haul, yn ôl yn 1977.

Nofelydd arall a oedd yn y Brifysgol ychydig ynghynt oedd Aled Islwyn, un arall sydd wedi ennill Llyfr y Flwyddyn ac un rheswm pam fod Llanbed mor llwyddiannus yn magu llenorion oedd presenoldeb dau nofelydd enwog ar y staff.

Un oedd John Rowlands a oedd, ar ôl gadael Llanbed, wedi dysgu ysgrifennu creadigol i lwyth anferth o awduron – gan gynnwys enillydd y dwbwl eleni, Lleucu Roberts – ond yn Llanbed y gwnaeth argraff i ddechrau.

Y llall, wrth gwrs, oedd Islwyn Ffowc Elis; brenin yr awduron poblogaidd yn ail hanner y ganrif ddiwetha' ac fe fydd yr ail ddarlith goffa yn ei enw yn cael ei chyflwyno yng Ngŵyl Golwg gan un o'i ddilynwyr yn y ffydd, Bethan Gwanas.

Pwrpas y ddarlith ydi trafod rhyw ffurf ar sgrifennu poblogaidd – nid darlith sych, uchel ael, ond un sy'n apelio at drwch darllenwyr, yn union fel nofelau Islwyn Ffowc ei hun.

Ond mi ddangosodd ei nofelau ef nad oedd poblogaidd yn golygu sgrifennu sâl; i'r gwrthwyneb, mae sgrifennu stori sy'n gafael yn gofyn am fwy o grefft na dim.

Roedd Islwyn Ffowc yn arloeswr hefyd, yn ymwneud â rhai o'r cynigion cynta' i gael opera sebon ar y teledu yn Gymraeg – cyfrwng arall sy'n gofyn am fwy o grefft nag y mae pobol yn aml yn meddwl.

Ac ychydig sy'n cofio bellach fod awdur Cysgod y Cryman wedi bod yn rhan o arbrawf diddorol, a hynny unwaith eto wedi'i osod yn y brifysgol yn Llanbed.

Rhyw frith go' sydd gen i o ffrindiau yn Aberystwyth yn cael gwaith am gyfnodau byr yn gweithio mewn math o ffatri nofelau poblogaidd, neu o leia' yn labordy'r ffatri honno.

Defnyddio un o gynlluniau creu gwaith y Llywodraeth yr oedd Islwyn – fel heddiw, roedd hwnnw'n gyfnod o ddiweithdra mawr ac angen cynlluniau i gadw pobol ifanc rhag bod yn segur.

Os cofia' i'n iawn, y syniad oedd ceisio dod o hyd i gyfrinach nofelau poblogaidd – nofelau y byddai rhai pobol yn edrych i lawr eu trwynau arnyn nhw a'u galw'n nofelau sothach.

Ond y rheiny oedd yn gwerthu ac, yn sefyllfa argyfyngus y Gymraeg, roedd cael llyfrau oedd yn gwerthu ac yn cyrraedd darllenwyr newydd yn gyfraniad ofnadwy o bwysig.

Y bwriad, felly, oedd astudio nofelau llwyddiannus a gweld i pa fformiwla yr oedden nhw'n gweithio; wedyn, ceisio ail-greu'r fformiwla honno mewn nofelau Cymraeg.

Dw i ddim yn cofio bellach a oedd Cyfres y Fodrwy – y Mills and Boon Cymraeg – yn rhan o'r un prosiect ond, yn sicr, roedd yr addasiadau a'r nofelau hynny'n perthyn yn agos o ran ysbryd.

Roedd y rheiny hefyd yn gweithio i fformiwla ac wedi'r cyfan dim ond dwy neu dair stori wahanol sydd i'w cael yn y byd – amrywiadau ar y rheiny yw popeth arall.

Yn y stori ramant glasurol, mae pâr ifanc yn syrthio mewn cariad, yn wynebu gelyniaeth neu fygythiad, ond yn dod trwyddi yn y pen draw – neu yn marw o dorcalon.

Mewn nofel ddirgelwch, mae angen trosedd, rhywun i'w chyflawni hi ac wedyn digon o sgwarnogod i gadw'r darllenydd rhag dyfalu be ydi'r gwir.

Dim ond un elfen o Ŵyl Golwg yw hynna – mi fydd yna sgwrs efo Caryl Lewis hefyd i ddathlu deng mlwyddiant cyhoeddi Martha, Jac a Sianco, er enghraifft, a phob math o adloniant – ond am hynna y bydda' i'n meddwl ar fy ffordd i wrando ar Ioan Kidd a Bethan Gwanas.

Cefn Hafod
Gorsgoch
01570 434238
Cyri bob nos Wener
£6 y pen
Croeso cynnes i bawb!

WD Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants
Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk
Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
* Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyo ar gyfer pob achlysur
Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

Alec Page
Gof
Gwaith metal o safon i'r tŷ a'r ardd.
Dewch i drafod eich syniadau.
Yr Efail, Barley Mow, Llambed.
01570 423955
www.alecpageblacksmith.co.uk

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR.
COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

# Clwb Bowlio Llambed



**Adran Y Merched - Clwb Bowlio Llambed.**

Mae merched y clwb wedi cael llwyddiant arbennig eleni eto. Yn Mehefin bu Anwen Butten, Morfydd Rees, Carolyn James, Rhian Jones a Melanie Thomas allan yn Jersey yn cynrychioli ei gwlad yn gemau Rhyngwladol Prydain. Yng Ngorffennaf enillodd Alis Butten ei chap cyntaf yn gemau Rhyngwladol Iau Prydain lle bu yn chwarae gyda'i chyd aelod o'r Clwb Melanie Thomas yn Ballymena, Iwerddon.

Balchder ddaeth i'r clwb unwaith yn rhagor pan gynrychiolodd Anwen Butten ei Gwlad yn gemau'r Gymanwlad, lle roedd ei mam Anita Williams yn rheolwraig ar y tîm merched.

Daeth llwyddiant i dîm merched Llambed eleni trwy ennill y gynghrair heb golli unrhyw gêm.

**Clwb Bowlio Llambed - Adran y Dynion**

Daeth llwyddiant i ran aelodau o'r Clwb Bowlio yn ystod yr haf.

Ar ben wythnos braf o Orffennaf cynhaliwyd pencampwriaeth 2-bowl Ceredigion ar y lawnt. Enillwyd y gystadleuaeth i unigolion gan Eddie Thomas, y parau gan Ron Thomas a Steve Entwistle gyda Elfan James a Henry Jones yn cyrraedd y rownd derfynol.

Bu Hari Butten yn fuddugol yn y gystadleuaeth dan 16 gan faeddu Osian Jones yn y rownd derfynol. Bu Hari hefyd yn cynrychioli'r sir ym mhencampwriaeth Cymru yn Llandrindod ym mis Awst ar ôl ennill cystadleuaeth y Sir.


Yng nghystadleuaeth unigol y "Jeff Edwards Memorial Trophy" ym mis Awst, Aled Roberts ddaeth i'r brig gan guro Steve Entwistle yn y rownd derfynol.







Aled Roberts - Enillydd Cwpan Coffa Jeff Edwards 2014.



Ron a Steve - Enillwyr Parau'r Sir 2014.



Harri Butten - Enillydd Cwpan Ieuenctid y Sir 2014.



Eddie Thomas - Enillydd Cwpan y Sir 2014.

# Llanbedr Pont Steffan

**Priodas Ddiemwnt**

Llongyfarchiadau i Delfryn a Vera James, Y Fron, Heol y Bont, Llambed ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt yn ystod diwedd mis Gorffennaf. Bu Del yn Gadeirydd Clonc am flynyddoedd maith ac yn dal i ddod i helpu gyda'r plygu yn Festri Shiloh yn fisol. Gobeithio eich bod eich dau wedi joio'r dathliad pwysig yma ac y cewch flynyddoedd lawer eto yng nghwmni eich gilydd.

**Diolch**

Dymuna Llion Thomas, Gilfachwen, Rhodfa Glynhebog ddiolch yn ddiffuant i bawb am y cardiau, yr anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur ei ben-blwydd yn ddeunaw oed dros yr haf.

**Caniadeth y Cysegr**

Bydd yna gyfle i glywed y drydydd raglen o Gymanfa'r Sioe a gynhaliwyd yn Eglwys Shiloh ym mis Tachwedd 2013 ar Ganiadaeth y Cysegr ar y nos Sul Medi 14 am 4.30 o'r gloch. Bydd y rhaglen yma ar ffurf gwahanol gan ei fod yn seiliedig ar ddewis y gynulleidfa a oedd yn bresennol ar y nos o'i hoff emynau. Cyflwynir y rhaglen gan y Parch R Alun Evans. Twynog Davies oedd yr Arweinydd gyda Brian Jones wrth yr organ.

**Cofio Arthur Roderick**

'Doedd Eisteddfod Rhys Thomas James Llanbed ddim yr un peth eleni,- 'roedd wyneb a llais cyfarwydd yn eisiau. Bu Arthur Roderick yn aelod gweithgar o bwyllgor yr Eisteddfod o'i chychwyn yn 1966 ac yn gyfrifol gydag eraill i sefydlu'r Adran Gelf a Chrefft. 'Roedd wrth ei fodd yn cymryd ei dro fel Arweinydd Llwyfan. Bu'n Gadeirydd y Pwyllgor Gwaith ac yn dilyn hynny fe'i dyrchafwyd yn Llywydd Anrhydeddus. Yn un o sefydlwyr Côr Meibion Cwmann a'r Cylch sy'n dathlu eu hanner cant oed eleni. 'Roedd y diwylliant eisteddfodol yn rhan anatod o fywyd teulu Awelon.

Bu cyfraniad Arthur yn amhrisiadwy ymhob maes ac ysgwyddodd ei gyfrifoldeb ar bob adeg a chysegrodd ei fywyd i fyw ei Grefydd a chynnal yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Mae'r Prifardd Idris Reynolds yn dweud y cyfan amdano yn ei englyn i gofio am ei wasanaeth fel diacon ym Mrondeifi am 57 mlynedd:-

Yn llwythog ei swyddogaeth – ef a roes
I'w fro ei wasanaeth
A rhoi'n hael o'r Gair a wnaeth
Cennad y ddiaconiaeth.

Diolch am ei wasanaeth diflino i bob cylch o fywyd â fu'n ymwneud â nhw.

Goronwy Evans

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Lisa Elin Moore, 28 Penbryn, am raddio gyda 2:1 mewn Busnes a Rheolaeth o Brifysgol Aberystwyth. Pob lwc i'r dyfodol.

**Merched y Wawr**

Cynhelir ein cyfarfod cyntaf ar nos Lun Medi 8 fed am 7.30 y.h. yn Festri Shiloh fel arfer. Bydd ein llywydd am y flwyddyn, Mrs. Mary Davies yn croesawu Richard Jones ein cigydd lleol i'n cyfarfod. Croeso cynnes i'n haelodau presennol, i ddysgwyr ac i unrhyw un a hoffai ymuno â ni yn Merched y Wawr. Mae rhaglen diddorol yn eich disgwyl.

**Diolch**

Dymuna Dilwen, Alun, Hywel a Heulyn ddiolch yn ddiffuant i berthnasau a ffrindiau am eu cydymdeimlad a'u cefnogaeth mewn gair a gweithred ar ôl marwolaeth Arthur. Gwerthfawrogwyd hyn yn fawr iawn. Diolch o galon i chi gyd.

**Llongyfarchiadau**

Yn ystod yr haf, bu Steffan Jenkins, TyLlwyd yn llwyddiannus mewn amryw o gystadlaethau mewn sioeau cneifio dros Gymru.

Mi ddaeth i'r brig ym Mhencampwriaeth cneifio yn yr adran Iau yng Nghylchdaith Cneifio Wyn Cymru 2014.






Cynhaliwyd cinio a chyflwyniad yn ddiweddar yng Ngwesty'r Llew Du, Llanbedr Pont Steffan, ac yn y llun mae Mr Rhys Bebb Jones, cyn Lywydd Clwb Rotari Llanbed, a Mrs Carol Ramaya, Llywydd newydd y Clwb, yn cyflwyno siec am £250.00 i gefnogi gwaith Mind Aberystwyth. Cyflwynir y siec i Mr Will Rathouse o Mind Aberystwyth a roddodd gyflwyniad ar y gwaith rhagorol a wneir gan yr elusen yng Ngheredigion sy'n cefnogi'r rhai sy'n dioddef ystod eang o anhwylderau iechyd yn gysylltiedig â salwch meddwl. Mae Clwb Rotari Llanbed yn ddiolchgar iawn i bawb a gefnogodd eu hymdrechion codi arian dros y deuddeg mis diwethaf sy'n eu galluogi i gefnogi Mind Aberystwyth sef yr achos da ddewiswyd ganddynt yn elusen dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn y llun o'r chwith i'r dde mae Rhys Bebb Jones, Carol Ramaya a Will Rathouse.

**Cymdeithas Hanes**

Daeth tymor 2013-14 i ben gyda thaith i Dalacharn, i gofnodi canmlwyddiant geni Dylan Thomas. Rhannwyd yr aelodau'n ddau grŵp, - hanner i ymweld â'r 'Boathouse' , sef yr olaf o dri thŷ y bu'n byw ynddynt yn y dre, a'r man y cyfansoddodd llawer o'i waith. Mae llawer o weithgareddau yn, neu wedi cael eu cynnal yno eleni wrth ddathlu'r canmwyddiant. Yn wir, roedd yna griw teledu yn ffilmio y diwrnod hwnnw yng nghwmni wyres y bardd.

Bu'r aelodau eraill yn ymweld â'r Castell, a chael hanes hynod ddiddorol y lle hwnnw dros y canrifoedd gan yr Athro David Austin.

Wedi toriad am ginio, daeth pawb at ei gilydd yn Neuadd y Dre', a chael cwmni un o wŷr amlwg Talacharn yn rhoi hanes unigryw y dref. Maent yn cynnal ei Llysoedd Trefol bob pythefnos, ond yn yr un dull y maent wedi gwneud dros llawer i ganrif. Porthfaer a Rheithgor sydd ganddynt yn hytrach na Maer a Chyngor y dref, ac mae yna batrwm pendant i'r gwaith sy'n cael ei gyflawni ganddynt. Hedfanodd yr awr tra'n cael yr hanes yma, gan mor ddiddorol yr oedd. Newidiodd y ddau grŵp eu lleoliadau yn y prynhawn, fel bod pawb wedi ymweld â'r cyfan. Trefnwyd y diwrnod gan Gaenor Parry, a diolchwyd yn gynnes iddi am ddiwrnod arbennig gan Selwyn Walters, y Cadeirydd, ar ran yr aelodau i gyd.

Bydd y Gymdeithas yn ail -ymgynnull ar yr 16eg o fis Medi, am 7.30 yn Yr Hen Neuadd yn y Brifysgol. Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol i ddechrau, yna bydd Selwyn Walters yn rhoi hanes yr Amgueddfa a Thaith Treftadaeth Llambed.

Mae'r Gymdeithas yn ddeg oed eleni, ac edrychwn ymlaen i groesawu'n aelodau presennol yn ôl atom yn mis Medi a chael rhai newydd i ymuno â ni. Tâl aelodaeth yn £5 am y tymor. Croeso cynnes i bawb.




Ar ddydd Gwener, Awst 15 cynhaliwyd taith Gerdded Noddedig o Ganolfan Hamdden Llambed i Westy Llanina, Llanarth er budd Unedau Arbennig Llambed ac Ysgol Llanarth a Nyrsus Macmillan a chodwyd tua £3,500 ac yma gwelir y rhai a fu'n cerdded yn cael hoe yn Temple Bar.

# Llanbedr Pont Steffan






Tref Llambed yn cofio Dechrau Rhyfel Byd Cyntaf drwy gerdded drwy'r dref gan ddilyn Aberporth Air Cadets ac yna nôl i'r Eglwys i'r gwasanaeth cofio.




Trefnodd 'duet' a Lan Lofft, Llambed raffl Nadolig a llwyddwyd i godi £1,300 i Gymdeithas Alzheimer's. Yma mae Janice Williams, y perchennog yn cyflwyno'r siec i Mark Williams, Llysgennad Codi Arian ar gyfer y Gymdeithas Alzheimer's, Cangen Ceredigion. Yn y llun hefyd mae Kate Williams (staff) a Heather Price (dde), cynrychiolydd o Banc Barclays Llambed a gyfrannodd £640 fel rhan o gynllun punt am bunt y banc.




Yn gynharach yn y flwyddyn cynhaliodd 'duet' a Lan Lofft sioe ffasiwn lle codwyd 3,220.00 ac yn ddiweddar derbyniodd Dr Dafydd Bowen, siec ar ran Crohn's and Colitis UK gan Janice Williams, y perchennog. Yn y llun hefyd mae Kate Williams (staff) a Heather Price (chwith), cynrychiolydd o Banc Barclays Llambed a gyfrannodd £1,000 fel rhan o gynllun punt am bunt y banc.



Gerwyn Jones, Cadeirydd cyn ddiffoddwyr tân Llambed yn cyflwyno siec o £250.00 sef elw o'r bingo misol i Tegwen Rowbotham, Cadeirydd a chyd-lynydd Arthritis Care Ceredigion, yn ystod eu cyfarfod ym mis Awst.

**Bedyddwyr Gogledd Teifi**

Ddydd Sul, 27 Gorffennaf, aeth criw o Gylch Bedyddwyr Gogledd Teifi ar daith i'r dwyrain. Cyrhaeddwyd eglwys Llanwenarth, Gofilon, ger y Fenni, sef yr eglwys Fedyddiedig hynaf sy'n dal mewn bodolaeth. Cawsom groeso cynnes gan y Parchg Ddr Peter Baines, gweinidog yr eglwys, a rhoddodd rywfaint o hanes yr achos i ni. Wedi egwyl yn y festri yn mwynhau ein picnic, cawsom oedfa fer hyfryd dan ofal ein gweinidog, y Parchg Jill Tomos. Rhannwyd y gwaith hefyd ymhlith aelodau'r eglwysi oedd ar daith, sef Nesta o Fethel, Sulwen o Seion, Alan o Aberduar a Myfanwy o Noddfa. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Delyth. Yn dilyn yr oedfa, aethom yn ein blaenau i Symonds Yat a mwynhau taith bleserus a hamddenol ar yr afon Gwy. Arhoswyd yn Llanymddyfri i fwynhau pryd bwyd swmpus ar y ffordd adre, nes bod neb bron angen brecwast fore trannoeth! Diolchodd Janet yn gynnes i Jill ac i Dewi am eu gwaith yn trefnu ac yn paratoi ar gyfer y daith.

Edrychwn ymlaen at ein gweithgaredd nesaf fel Cylch, sef cinio yn y Grannell, Llanwnnen, nos Fawrth, 9 Medi. Y siaradwr gwadd fydd Lyn Lewis Dafis, Aberystwyth. Cysylltwch â Delyth os am fwy o wybodaeth - 422 992.

**Diolch**

Hoffai Idwal a Margaret Morgan ddiolch i bawb am yr anrhegion, cardiau a'r blodau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlir yn ddwys â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod misoedd yr haf.

**Noddfa**

Mae yna nifer o weithgareddau ymlaen yn ystod yr wythnosau nesaf gan ddechrau gyda Chinio'r cylch yn y Grannell nos Fawrth 9 Medi. Y siaradwr gwadd fydd Lyn Lewis Dafis o Aberystwyth. Edrychwn ymlaen at noson hwylus yng nghwmni'n gilydd.

Bydd y Cylch Darllen yn ail-ddechrau ar 10 Medi am 10.30 yn festri Noddfa. Croeso cynnes i rai newydd ymuno â ni am baned a darllen ac yna sgwrsio a thrafod rhannau o'r Beibl. Y thema eleni yw 'Credaf'.

Nos Lun 29 Medi cynhelir ein Cwrdd Diolchgarwch am 7 o'r gloch. Gwasanaethir gan Delyth Morgans Phillips un o'n haelodau ffyddlon a gweithgar. Croeso cynnes i bawb.

Ar nos Fawrth 14 Hydref edrychwn ymlaen i groesawu Dr Menna Machreth Llwyd i Noddfa sef cydlynydd cenhadaeth Undeb Bedyddwyr Cymru i ysgogi trafodaeth ar ein rhan ni yng nghenadaeth Crist. Gan mai Noddfa sydd wedi ei gwahodd fe fydd y trafod yn canolbwyntio ar sefyllfa Noddfa ond estynnir croeso cynnes i aelodau eglwysi eraill Bedyddwyr cylch Gogledd Teifi fanteisio ar y cyfle i gwrdd â Menna ac i wrando ar beth fydd ganddi i'w ddweud.

**Aelwyd yr Urdd yn Holi am Gymorth**

Bydd Aelwyd yr Urdd yn ail ddechrau ar ddiwedd y mis yn dilyn y gwyliau. Cynhelir y cyfarfodydd yn Ysgol Bro Pedr bob pythefnos ar nos Fawrth o 7 hyd 8.15 o'r gloch o ddiwedd Medi tan ddiwedd Ebrill. Ni chynhelir cyfarfodydd yn ystod gwyliau ysgol. Fel y gwyr pawb, siwr o fod, mae Janet wedi bod yn gysylltiedig â'r Aelwyd a'r Adran ers bron i ddeugain mlynedd blynedd. Bu Geinor Medi a hi yn gwasanaethu fel cyd Arweinyddion yr Aelwyd ers nifer o flynyddoedd a hynny yn llwyddiannus iawn.

Mae Janet wedi penderfynu ei bod yn amser iddi ymddeol fel cyd Arweinydd gan obeithio'n fawr y bydd gwirfoddolwyr ifanc yn barod i ddod i'r adwy am ychydig oriau y mis er sicrhau dyfodol yr Aelwyd. Diolch i Geinor Medi am ei pharodrwydd i barhau gyda'r gwaith. Os oes unrhyw un am ragor o fanylion am weithgareddau'r Aelwyd bydd Janet neu Geinor Medi yn barod i gael sgwrs gyda chi. Edrychwn ymlaen i glywed oddi wrthych.

# Eisteddfod Rhys Thomas James

Bu tipyn o drafod hynod cyn i Eisteddfod Rhys Thomas James ddechrau eleni o ganlyniad i'r nifer uchel a oedd wedi cofrestru i gystadlu. Roedd Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen 2014 yn argoeli i fod yn un lwyddiannus tu hwnt!

Agorwyd yr Eisteddfod gan Lena Daniel - Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith ac yn ei haraith cafwyd gwers hanes yn atgoffa'r gynulleidfa am hanes teulu James Pantyfedwen a'i haelioni wrth noddi'r ŵyl yn flynyddol.

Y beirniaid eleni oedd:

Cerdd - Catrin Aur, Siôn Goronwy  Meinir Richards ac Odette Jones.

Llefaru - Alun Jones, Owenna Davies ac Eleri Richards.

Llenyddiaeth - Y Prifardd Tudur Dylan a'r Prifardd Cyril Jones.

Yn yr adran gyfynedig prynhawn Sadwrn gwelwyd gystadlu brwd iawn gyda'r cystadleuydd ieuengaf – Elin Dafydd, (ond yn ddwyflwydd oed) yn reit gartrefol o flaen cynulleidfa gefnogol iawn. Roedd pawb o'r farn bod dyfodol yr Eisteddfod yn ddiogel iawn yn nwylo yr holl dalent lleol a ddaeth i'r amlwg.

Llywyddion y dydd oedd tair sydd wedi cefnogi'r Eiteddfod bron yn ddidor o'r cychwyn sef 'merched Cribyn' - Dilwen Jenkins, Olwen Jenkins a Llinos Henson. Profodd eu cyflwyno fod yn dipyn o ben tost i'r Cadeirydd gan iddi fod mewn sioc ers i'r Pwyllgor Cerdd  enwebu aelodau o'i theulu i ymgymryd â swydd mor barchus! Cafwyd araith pwrpasol iawn gan Dilwen ar ran y dair yn gwerthfawrogi'r cyfle i fwynhau'r holl gystadlu Gŵyl y Banc bob mis Awst.

Gruffydd Llwyd Dafydd o Abermeurig enillodd y tlws am y cystadleuydd mwyaf addawol o dan ddeuddeg yn yr Adran Gerdd a Dewi Uridge oedd enillydd y Tlws ieuenctid am ei farcud metal celfydd iawn. Elan Jones enillodd y tlws am y marciau uchaf yn yr Adran Gelf a Chrefft a Ysgol Bro Pedr oedd yr ysgol gyda'r uchafswm o farciau.  Profodd y gystadleuaeth Canu Emyn dan 12 yn boblogaidd iawn gyda Nia Eleri Morgans, Gorsgoch yn dod i'r brig allan o dros ddwsin o gystadleuwyr.  Hedydd Thomas fu'n gyfrifol am Seremonïau Cadeirio'r bardd a'r Tlws Ieuenctid dan 25 a hyfryd oedd deall mai Gareth Evans Jones o Ynys Môn oedd wedi ennill y ddwy wobr.

Enillwyr y gystadleuaeth 'Sgen ti Dalent' dan 16 oed oedd Hanna ac Ella ac Arthur Wyn o Groeslon ddaeth i'r brig yn y Canu Emyn dros 60.





Dan ofal Dorian Jones, Prif Ysgrifennydd yr Ŵyl, coronwyd Dr D Islwyn Edwards a bu disgyblion Ysgol y Dderi yn diddanu'r gynulleidfa gyda'r ddawns flodau. Cafodd pawb yn y neuadd ei swyno gan berfformiadau buddugol Steffan Rhys Hughes o Landegfan ger Dinbych ar y Llefaru i Gyfeiliant, y Canu Emyn dan 60 ac hefyd y gystadleuaeth Sgen ti Dalent dros 16 oed.


Cawd dipyn o hwyl ar ddiwedd y cystadlu wrth i Gethin Morgan gymryd at yr awennau ac arwain am y tro cyntaf mewn ffordd naturiol, llawn hiwmor a wnaeth achosi pawb yn y neuadd i chwerthin yn gyson!!

Braf oedd gweld Capel Soar yn llawn ar gyfer yr Oedfa fore Sul a rhaid cyfaddef fod y wasanaeth wedi bod yn un wahanol iawn wrth i'r pregethwr gwâdd, Tudur Dylan Jones ymestyn gwahoddiad i'r gynulleidfa i arwyddo Llyfr Gwyn Caerfyrddin er mwyn hyrwyddo heddwch.

Roedd cystadleuaeth Llais Llwyfan Llambed brynhawn Sul o safon uchel tu hwnt unwaith yn rhagor eleni gyda 13 o ymgeiswyr yn y rhagbrawf. Bu'n dipyn o ben tost i'r beirniaid ddewis y 5 gorau i fynd ymlaen i ymgiprys am y wobr o £1000 y noson honno.  Jessica Robinson o Glunderwen fu'n fuddugol a braf oedd gweld hi'n cyrraedd y brig wedi iddi gefnogi'r eisteddfod yn gyson ers ennill yr Unawd dan 8 oed yn y gorffennol.



Jessica Robinson o Glynderwen yn ennill y cyntaf yn Llais Llwyfan Llambed ac yn derbyn £1,000 ynghyd â Thlws Gwydr a gyflwynwyd iddi gan Mrs Bethan Longley Y Barri er cof am ei phriod Norman



Agorwyd yr Eisteddfod ar ddydd Llun Gŵyl y Banc gan Y Cyng. Elsie Dafis, Maer y Dref ac unwaith eto, bu cystadlu o safon uchel gydag unigolion yn dod o bob cwr o'r wlad ac hynod mor bell i ffwrdd â Llundain. Llywydd y dydd oedd Sara Lloyd Davies o Benarth ond yn gynt o Gulmore, Pentrebach a Brynsiriol, Llambed. Mae hi erbyn hyn yn gyfarwyddwraig Ysbyty Breifat Spire yng Nghaerdydd a hyfryd oedd ei chlywed yn sôn ei atgofion o fynychu'r eisteddfod yng nghwmni ei rhieni, Bessie a Siencyn Jones.

Hyfryd oedd manteisio ar y cyfle i gydnabod gwasanaeth Mary Jones, Landre ac ail gyflwyno tystysgrif Cymdeithas Eisteddfodau Cymru iddi am eu gwaith aruthrol fel Ysgrifenyddes Pwyllgor Cerdd yr Eisteddfod ers blynyddoedd maith. Gweler llun ohoni ar y dudalen flaen.

Enillydd y tlws i'r cystadleuydd mwyaf addawol heddiw oedd Owain John o Lansannan a chafodd pawb eu syfrdanu gan dalent aruthrol Megan Teleri Davies o Lanarth fu'n fuddugol ar yr Unawd Piano 12-19 oed.

Aled Evans o Gaerfyrddin a enillodd y Fedal Rhyddiaith a roedd y gynulleidfa wrth ei bodd yn gweld dyn lleol sef John Rhys Evans o Ffarmers yn codi ar ei draed i ennill y Gadair am ei gyfres o englynion am declynau defnyddiol.

Bu'n ddiwrnod hynod o lwyddiannus i Steffan Rhys Hughes am iddo gipio'r wobr gyntaf am yr Alaw Werin dros 19 oed, y brif Gystadleuaeth Lefaru dan 25 oed. Seren arall oedd y ferch leol sy'n cefnogi'r eisteddfod ers yn ifanc iawn sef Lowri Elen Jones.  Hi oedd yn fuddugol ar yr Unawd Alaw Werin 12-19 oed, yr Unawd Cerdd Dant 12-19 oed a'r Unawd allan o unrhyw Sioe Gerdd agored gyda dros dwsin o gystadleuwyr yn y rhagbrawf yma. Bu Kees Huysmans, dyn lleol arall yn dathlu ennill y dwbwl ar yr Unawd Gymraeg a'r Lieder neu Chanson. Braf oedd cael mwynhau perfformiad buddugol Elliw Dafydd yn y Monolog agored a'i chroesawu yn ôl o Wyl Gomedi y 'Fringe' yng Nghaeredin.


Llongyfarchiadau mawr i John Davies o Landybie ar ennill yr Her Unawd dros 25 oed ac hefyd i Lowri Daniel ar ddod yn fuddugol ar y Brif Gystadleuaeth Lefaru dros 25 oed.

Braf oedd gweld yr holl ganlyniadau ar y wê ychydig funudau wedi iddynt gael eu cyhoeddi o'r llwyfan trwy ddwylo Delyth Morgans Phillips a Nia Wyn Davies.

Do wir, bu'n eisteddfod lwyddiannus arall gyda phawb wedi ymfalchïo yn y cystadlu hynod o safonol eleni eto.

DIOLCH i bawb a fu ymghlwm wrth y trefniadau yn enwedig Dorian Jones yr ysgrifennydd gweithgar a'i deulu i sicrhau Eisteddfod arall hynod o lwyddiannus yn Llambed.

# Carden Teyrngarwch Llambed





Cafwyd dechrau da i Gerdyn Teyrngarwch Llambed. Mae 55 o siopau a busnesau yn Llanbed wedi ymuno â'r cynllun, dosbarthwyd 4000 o gerdiau teyrngarwch a thynnwyd yr enillydd cyntaf o het.

Enillydd cyntaf gwerth £30 o Dalebau Teyrngarwch Llambed ym mis Gorffennaf oedd Alex Fox. Defnyddiodd y talebau'n syth gan brynu cig yn Jones Bros a llysiau o The Fruit Box, a pheth talebau yn sbar.

Tynnir enillydd lwcus mis Awst ym Marchnad y Bobl yn Neuadd Fictoria ar ddydd Sadwrn 13eg Medi. Er mwyn cael y cyfle i ennill ewch â'ch cerdiau llawn i un o'r blychau casglu yn Yswiriant Eryl Jones, The Mulberry Bush, Ruby Rose, Organic Fresh Foods neu Marchnad y Bobl erbyn diwedd y mis.

Mae busnesau newydd yn ymuno â'r cynllun o hyd, ond dyma restr o aelodau ar y 23ain Awst. Mae'r rhestr gyflawn ar y we www.lampeter21.co.uk/loyalty/lampeter-loyalty-card-participating-businesses

01 – Lomax's
02 – The Mulberry Bush
03 – Organic Fresh Foods
04 – AJ Williams Embroidery
05 – Cafe Deli Neuadd y Dref
06 – Yswiriant Eryl Jones
07 – Ruby Rose
08 – Compass Office Supplies
09 – Carpedi Gwyn Lewis
10 – Cascade Florists
11 – Gwesty Glynhebog
12 – Marchnad y Bobl @ Neuadd Fictoria (2il & 4ydd Sadwrn bob mis)
13 – CWN Design
14 – Calico Kate
15 – Creative Cove
16 – Hag's Records
17 – Gwilym C Price ei fab a'i ferched
18 – Red Apple Yarn
19 – Canolfan Arddio Robert
20 – The Wash Tub
21 – Spar Llanbed
22 – DL Williams
23 – Lambi's
24 – Sosban Fach
25 – DD Evans
26 – Canolfan Addurno AAA
27 – Trysor
28 – Duet & Lan Lloft
29 - Y Llew Du
30 – Panacea
31 – Optegydd Evans & Hughes
32 – Cigydd Jones Bros
33 – J H Roberts a'i feibion
34 – Jenkins of Ffarmers
35 – Deintyddion Pont Steffan
36 – Denmark Farm Conservation Centre
37 – Garej Brondeifi
38 – Cadi & Grace
39 – Deli-licious
40 – Delwedd Newydd
41 – Teiars Huw Lewis
42 – Canolfan Gwiltiau
43 – The Fruit Box
44 – Fferyllydd Adrian Thomas
45 – Carpet Corner
46 – Merlin's Cave
47 – Nehar Indian
48 – W D Lewis a'i fab
49 – Bargain Box
50 – Dere i Dorri
51 – G & M Coaches (petrol)
52 – Quality Fill Bargain Foods
53 – Milfeddygon Steffan
54 – Premier Siop y Gymuned
55 – Marchnad Ffermwyr Llanbed

Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Chris Studman ar 01570 493649 neu loyalty@lampeter21.co.uk.

# Cwrtnewydd

**Mabolgampau Cwrtnewydd**

Ar ddiwrnod digon gwlyb ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 12fed fe gynhaliwyd y gwahanol rasys i gyd i'r plant bach mewn yn neuadd yr ysgol. Fe ddaethpwyd i ben â chynnal brwdfrydedd pawb ac roedd y plant i gyd wedi joio mas draw. Llywyddion y dydd oedd Mr a Mrs Simon Evans, Troed y rhiw ac fe gafwyd ganddo anerchiad diddorol a chyflwynodd rodd garedig iawn i'r coffrau. Diolchwyd i bawb am gefnogaeth [er gwaetha'r tywydd garw] gan Wendy Davies, cadeirydd y pwyllgor.

**Diolch**

Dymuna Elgan, Brenda a'r teulu, Gwel y Cledlyn, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth yn ddiweddar.

**Sioe Frenhinol**

Enillodd Huw Evans, Alltgoch bencampwriaeth Defaid Llanwenog am yr 20fed blwyddyn yn y Sioe Frenhinol gyda'i ddiadell - tipyn o gamp. Hefyd i Paul Williams, Clyncoch gyda'i ieir ac hefyd i Margaret Jones, Cae glas am ennill gwobrau ym Mhafiliwn Morgannwg yn y Sioe. Llongyfarchiadau gwresog i chwi eich dau.

**Llongyfarchion**

Llongyfarchiadau gwresog i Huw Evans, Alltgoch ar ennill y wobr 1af am Gerdd rydd, hyd at 40 llinell ar y testun Llwyfan yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli yn ystod mis Awst.

Hefyd i Carys a Heiddwen, Fronddu gynt ar eu llwyddiant hwy hefyd yn yr Eisteddfod yn Llanelli. Carys yn ennill yr Unawd Mezzo Soprano ac yn cael yr hawl i gystadlu yng Ngwobr David Ellis ar y Nos Sadwrn. Hefyd i Heiddwen ar ddod yn 2il am y Fedal Ddrama – tipyn o gamp.

**Llwyddiant i Ddysgwraig**

Mae Helen Weedon, Red Lion House, wedi ennill clod haeddiannol am ei hymdrechion yn dysgu Cymraeg. Mae hi wedi ennill dwy wobr gyntaf yn Eisteddfod y Dysgwyr a drefnwyd gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru yn ddiweddar – un ar lefel Canolradd am ysgrifennu e-bost yn bwcio rhywbeth neu rywun ac un ar lefel Uwch am ysgrifennu Adolygiad o Lyfr Cymraeg. Dewisodd Helen ysgrifennu adolygiad o'r llyfr 'Bore Da' gan Gwennan Evans, merch arall sydd â chysylltiadau ag ardal Clonc. Nid dyma'r wobr gyntaf i Helen ei hennill oherwydd mae wedi cael cryn lwyddiant yng Nghystadlaethau Merched y Wawr i Ddysgwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2012 enillodd yr ail wobr am ysgrifennu carden bost ar lefel Mynediad; y wobr gyntaf am ysgrifennu dyddiadur wythnos ar lefel Canolradd y llynedd ac eleni enillodd hi'r drydedd wobr am ysgrifennu adolygiad.



Symudodd Helen a'i gŵr i Gymru ddiwedd 2010 ac mae ganddynt dri o blant sy'n mynychu Ysgol Cwrtnewydd ac sy'n siarad Cymraeg yn rhugl. Mae hi'n dysgu'r iaith er mwyn helpu ei phlant gyda'u gwaith cartref, er mwyn cymryd rhan ym mywyd y pentref a'r ardal a hefyd er mwyn sgwrsio gyda'i ffrindiau a chymdogion. Mae Helen yn mynychu dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn Llambed a'i thiwtor yw Carol Thomas.

Yn y llun uchod Helen Weedon a'i phlant Sophie, Rowland ac Edward yn arddangos tystysgrifau eu mam.

**Cau drysau**

Ar Awst 30ain roedd hi'n ddiwrnod trist a siomedig i ffermwyr a thrigolion Cwrtnewydd a'r ardaloedd agos. Ar ôl deuddeg mlynedd yn y Felin bydd Huw a Bethan yn cau y drysau 'Bwydydd Rees' am y tro olaf. Diolchwn iddynt o waelod calon ar ran pawb o'u cwsmeriaid am y gwasanaeth mae pawb wedi derbyn yn ystod yr amser maent wedi bod yn y Felin croesawgar a bob amser yn gwrtais a parod i blesio.

Diolch o galon i'r ddau ohonoch chi. Gwelwn eich eisiau yn fawr.

# Cwmann

**Côr Cwmann a'r Cylch**

Eleni, mae Côr Meibion Cwmann a'r Cylch yn dathlu 50 mlynedd. Mae sawl digwyddiad arbennig wedi ei gynnal yn barod i ddathlu ein carreg filltir. Byddwn yn cyhoeddi llyfr yn cofnodi hanes y côr ers ei sefydlu yn 1964 o dan yr enw "Cofio'r Hanner Canrif". Bydd yn cael ei lansio ar Hydref 22ain. Bydd yn lyfr clawr caled hanesyddol, wedi ei olygu gan y diweddar Arthur Roderick gyda Alun Jones yn is-olygydd, ac yn cynnwys erthyglau difyr a lluniau o'r côr dros bump degawd. Mae y côr am roi cyfle i drigolion yr ardal danysgrifio am £9 cyn Medi 24ain a chael eu henwau yn y llyfr bydd yn gwerthu wedyn am £10. Estynnwn wahoddiad i unrhyw un â diddordeb i gysylltu â Cyril Davies (ffôn 01570 423064) neu â Rhys Bebb Jones ebost : rrbbjones@gmail.com Mae modd noddi y llyfr hefyd. Dyma lun clawr y llyfr

Yn ogystal â'r uchod bydd y Côr yn cynnal gymanfa ddathlu yng Nghapel Soar Llanbed am 7.00 o'r gloch Nos Sul Hydref 12fed o dan arweiniad J Eirian Jones, Cwmann. Bydd y Gymanfa yn cael ei recordio i "Ganiadeth y Cysegr". Croeso i bawb.

**Diolch**

Dymuna Llyr a Ceris Jones, 20 Cwrt Deri ddiolch o waelod calon i'w teuluoedd, ffrindiau a chymdogion am eu dymuniadau gorau ar enedigaeth Gwion Jac ar ddiwedd mis Mehefin.

Dymuna Glesni Thomas, 1 Heol Hathren ddiolch i'w ffrindiau am y pentwr cardiau, blodau a'r anrhegion hael a hynny ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

**70 oed**

Dathlodd Mrs Rosa Lloyd, 7 Heol Hathren ei phenblwydd yn 70oed yn ystod yr haf. Gobeithio i chwi fwynhau'r dathliad.

**Cydymdeimlo**

Yn dawel ar ôl brwydr galed, yn ysbyty Bronglais, Aberystwyth, dydd Sadwrn Awst 2il bu farw John Evans, 16 Treherbert, Cwmann. Priod ffyddlon Eluned a thad annwyl Huw a Shân. Tadcu cariadus Jennifer, Daniel, Sara a Jac.

Bu'r Gwasanaeth angladdol yn gyhoeddus yng Nghapel Caersalem, Parcyrhos, ar ddydd Gwener Awst 8fed am 11:30 o'r gloch, ac i ddilyn yn breifat yn Amlosgfa Aberystwyth. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

**Lefel A**

Llongyfarchiadau mawr i Steffan Roberts am gael 2A* a 1A yn ei arholiadau lefel A. Pob lwc i ti yn astudio peirianneg ym mhrifysgol Abertawe.

**Golff**

Llongyfarchiadau i Bryn Thomas, Tŷ Hathren, 11 oed ar ennill cystadleuaeth y dydd yn Diwrnod Capten y Dynion yng Nghlwb Golff Cilgwyn ar y 5ed o Orffennaf. Da iawn ti Bryn.



**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Beca Ann Jones, 1 Cwrt Deri ac Elan Jones, Araul ar basio Gradd 3 canu gyda Rhagoriaeth.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn ddwys â Eluned Evans a'r teulu, 16 Treherbert ar farwolaeth priod, tad a thad-cu hoffus. Hefyd â Ian Evans, Rhos Inn ar golli brawd brawd annwyl John Evans yn Ysbyty Brongalis.

**Pen-blwydd Arbennig**

Llongyfarchiadau i Jimmy Luker, 17 Treherbert sydd wedi dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed. Gobeithio i chwi gael diwrnod wrth eich bodd.

**Eisteddfod Genedlaethol**

Llongyfarchiadau i Elan Lewis a Charlotte Saunders ar ennill y wobr gyntaf ar y ddawns Disgo Hip Hop ac yn ail Naiomi Davies a Rhian Harris y bedair o Lambed. Dymuniadau gorau a daliwch ati.

**Ysbyty**

Danfonwn ein dymuniadau gorau i Mrs Marian Rees [Bronallt gynt] Cartref Maesllywelyn sydd newydd dderbyn llawdriniaeth. Gobeithio eich bod yn parhau i wella.

**Clwb 125 Neuadd Sant Iago**
**Mis Gorffennaf**

1. 58 Jean Davies, 2 Heol y Maes, Pencarreg. 2. 27 Kelly James, 15 Bro Llan, Llanwnnen. 3. 102 Cai Luker, 36 Heol Hathren, Cwmann. 4. 122 Cara Mair Harries, Llain Delyn, Cellan. 5. 105 Gwynfor Lewis, Bronwydd, Llambed. 6. 45 Eluned Lewis, Tanlan, Cwmann. 7. 55 M. Evans, Bronallt, Cwmann. 8. 30 Ceinwen Evans, Felinfach, Cwmann. 9. 17 Llinos Jones, Araul, Cwmann.

Pencampwr y Ceffylau Adran A yn Sioe Llanddewi Brefi oedd march o eiddo Richard a Gethin Morgan, Cwmann.



**Mis Awst**

1. 98 Mrs Lena Williams, 39 Heol Hathren, Cwmann. 2. 85 Mrs Elizabeth Warmington, Falkland, Heol y Bryn, Llambed. 3. 34 Mrs Isla Shaw, Bryngwyn, Gorsgoch. 4. 123 Yvonne Davies, Cwmbrwyn, Pencader. 5. 63 A. J. Jones, Arfryn, Cwmann. 6. 92 Mrs Rosa Lloyd, 8 Heol Hathren, Cwmann. 7. 61 Mrs Eirian Jones, Hollies, Heol-y-Gogledd, Llambed. 8. 148 Mrs Audrey Lewis, d/o 39 Heol Hathren, Cwmann. 9. 15 Mrs Carol Doughty, Ceris, Cwmann.

**Clwb 225 mis Mehefin**

1. 35 John Lloyd, Pyllaucrynion, Cwmann. 2. 97 Meinir a Dyfed Evans, Heol yr Orsaf, Llambed. 3. 104 Seren Ling, Glynbedw, Ram. 4. 211 Dana Jones, Cae Caoedmor, Cwmann. 5. 51 Ann Evans, Service Garage, Llambed. 6. 80 Anna Davies, Brynteifi, Cwmann. 7. 117 Dai Griffiths, Brynhathren, Cwmann. 8. 216 Mair Williams, 1 Railway Terrace, Cwmann. 9. 142 Carol Powell, Penbryn, Cwmann. 10. 235 Dorothy ac Efan James, Mark Lane, Llambed.

**Mis Gorffennaf**

1. 119 Wendy Mason, 35 Heol Hathren, Cwmann. 2. 207 Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann. 3. 1 Gwynfor Lewis, Bronwydd, Llambed. 4. 210 M. Jones, Glanhelen, Llambed. 5. 7 James a Rhian Thomas, d/o/ Steffan Vets. 6. 161 Edwin Harries, 8 Nantyglyn, Cwmann. 7. 141 S. Mason, Bryndolau, Pumsaint. 8. 23 Glesni Thomas, 1 Heol Hathren, Cwmann. 9. 125 Geraint a Helen Jones, Islwyn, Heol y Bont. 10. 69 Cyril Davies, Brynteg, Llambed.

**Mis Awst**

1. 75 Mrs June James, Maesteg, Cwmann. 2. 113 O & J. Jenkins, Oranmore, Cwmann. 3. 35 Eifion Davies, Four Winds, Cwmann. 4. 121 Mrs Fiona Jones, Llysteify, Cwmann. 5. 15 Wynzie a Mair Richards, Maesteify, Cwmann. 6. 103 Iwan Griffiths, Pantfyd, Esgairdawe. 7. 86 Mrs Muriel Davies, 2 Nantyglyn, Cwmann. 8. 95 Alun Williams, d/o Crown Stores, Llambed. 9. 42 Sian Evans, Waun, Llanybydder. 10. 65 Gillian Mason, Llyspedr, Llambed.

**Ffair Ram**

Cynhelir Ffari Ram ac Arddangosfa Hen Beiriannau ar gae pentref Cwmann ar yr 13eg Medi. Y llywydd eleni fydd Mr Roy Roach, Llanwnnen. Dylid mynd â defaid a nwyddau rhwng 10 a 11.30 y bore. Cysylltwch ag Eiddig Jones 422655 neu Danny Davies 423692 am fwy o wybodaeth. Gellir lawrlwytho'r rhaglen o wefan www.ffairram.btck.co.uk Cofiwch ddod i gefnogi ac i fwynhau'r diwrnod.

# Cwrtnewydd



Tair chwaer o Dregaron yn ennill y prif wobrau yn Sioe Tregaron - Eluned Stalham, yn y cynnyrch Gardd Lleol, Catherine Evans yn Adran y Blodau a Pamela Davies, Heol y Bryn, Cwrtnewydd yn Adran y Cyffeithiau.

# Drefach a Llanwenog

**C.Ff.I. Llanwenog**



C.Ff.I. Llanwenog yn dathlu cynnal Rali lwyddiannus ac ennill y Cwpan Gwynne am y clwb mwyaf llwyddiannus yng nghystadlaethau C.Ff.I. Ceredigion 2013/14.

Wrth feddwl am fisoedd yr haf mae'r mwyafrif o bobl yn meddwl am ymlacio yn yr haul ond nid aelodau o Glwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog a oedd dal wrthi'n brysur yn cystadlu. Angofiwch Gemau'r Gymanwlad, ar yr 2il o Orffennaf cynhaliwyd Athletau'r Sir yn Aberaeron, lle cafodd pob Usain Bolt a Jessica Ennis Ceredigion gyfle i ddangos eu dawn. Bu hi'n noswaith lwyddiannus tu hwnt efo Llanwenog yn dod i'r brig ar ddiwedd y cystadlu yng nghystadleuaeth yr Athletau ac yn 3ydd yn y Chwaraeon yn ei gyfanrwydd.

Dyma'r canlyniadau:

100m i ferched dan 14- 3ydd, 100m i fechgyn dan 14- 4ydd, 100m i ferched dan 18- 3ydd, 100m i fechgyn dan 18- 1af, 100m i ferched dan 26- 4ydd, 100m i fechgyn dan 26- 1af , 400m i ferched dan 14- 3ydd, 400m i fechgyn dan 14- 3ydd, 400m i fechgyn dan 18- 3ydd, Ras Gyfnewid Merched dan 14- 1af, Ras Gyfnewid Bechgyn dan 14- 3ydd , Ras Gyfnewid Merched dan 18- 2il, Ras Gyfnewid Bechgyn dan 18-2il, Ras Gyfnewid Merched dan 26-4ydd, Ras Gyfnewid Bechgyn dan 26-3ydd, Naid Hir Merched dan 14 – 2il, Naid Hir Bechdyn dan 14 – 4ydd, Naid Hir Merched dan 18 – 2il, Naid Hir Bechgyn dan 18 – 3ydd, Naid Hir Merched dan 26 – 4ydd, Naid Hir Bechgyn dan 26 – 1af, Taflu Pwysau Merched dan 14 – 1af, Taflu Pwysau Bechgyn dan 14 – 1af, Taflu Pwysau Merched dan 18 – 4ydd, Taflu Pwysau Bechgyn dan 18 – 4ydd, Taflu Pwysau Bechgyn dan 26 – 2il.

Uchafbwynt y flwyddyn i nifer o aelodau oedd nesaf ar galendr y clwb, sef Y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Rhwng yr holl fwynhau fe wnaeth nifer o aelodau greu amser i gystadlu.

Llongyfarchiadau i Arwel Jenkins, cyn-aelod, ar ennill Bwrsariaeth Amaethyddol C.Ff.I. Cymru am £1000 i wella'i fusnes.

Llongyfarchiadau i Huw Evans sef aelod anrhydeddus, ar ennill Pencampwr defaid Llanwenog yn y Sioe Frenhinol. Dyma'r 20fed tro iddo ennill Pencampwr!

Daeth y Bois Hŷn Tynnu'r Gelyn yn 5ed, sef Llyr Davies, Hefin Jones, Rhydian Evans, Martin Lloyd, Sion Evans, Rhys Jones, Carwyn Lewis a Dorian Thomas.

Daeth tîm Iau Tynnu'r Gelyn yn 8fed, sef Alwyn Evans, Iwan Evans, Rhys Davies, Tomos Evans, Aled Hughes, Ifan Davies, Dion Davies, a Dylan Davies.

Aeth y timoedd Tynnu'r Gelyn Llanwenog at farc merched Pontsian i wneud y Sir yn 5ed yn y TOW. Cyfrannodd hyn at Geredigion yn ennill tlws Her NFU am gystadlaethau C.Ff.I. y Sioe Frenhinol.

Wedi cael sawl wythnos o joio, ar yr 30ain o Orffennaf roedd hi'n bryd dod at ein gilydd i drafod yn AGM blynyddol y Clwb yn Ysgol Llanwenog. Efo Clive Davies, llywydd y clwb yn cadeirio'r cyfarfod, cafodd Gethin Hatcher ei ethol fel y Cadeirydd am y flwyddyn nesaf, Enfys Hatcher fel Ysgrifennydd, Sioned Davies fel Trysorydd a Briallt Williams fel ysgrifennydd cofnodion. Luned Mair yw'r Ysgrifennydd rhaglen newydd, Meinir Davies gafodd y swydd fel Swyddog Gwefan a Sioned-Fflur fel Gohebydd y wasg. Yn ystod y cyfarfod cafodd y Clwb gyfle i drafod targedau ac amcanion am y flwyddyn nesaf o gystadlu brwd.

Ar yr unfed ar bymtheg o Awst cynhaliwyd Sioe Amaethyddol Gorsgoch a CFFI Llanwenog ar gaeau Glwydwern. Cafwyd sioe lwyddiannus tu hwnt yn ystod y dydd, ac Eisteddfod ddwl yn ystod y nos. Tîm y clwb ddaeth yn fuddugol ar ddiwedd y noson.

**Diolch**

Dymuna Siân, Chris a Gethin, Gwelfryn ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth Marged Gwenno.

**Priodas Arian**

Yn ystod mis Gorffennaf dathlodd Peter a Caroline Davies, Derwen deg eu Priodas Arian. Gobeithio i chwi fwynhau'r dathliad.

**Ar wellhad**

Gobeithio erbyn hyn bod y ddwy gymdoges sef Jane Jones, Pwllybilwg a Gillian Jones, Meysydd yn well ar ôl i'r ddwy gwympo a thorri eu garddwn

Bu Mrs Mair Davies, Dolwerdd eto yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth law feddygol yn ystod mis Awst ac adref yn gwella erbyn hyn.

**Llwyddiant yn y Sioe Frenhinol**

Roedd enw pentref Llanwenog yn enwog yn y Sioe Frenhinol – daeth llwyddiant i Peter Howells, Tycam a Carwyn Lewis, Gwarcoedinon yn y gwahanol fridiau o wartheg. Da iawn chi.

**Cylchgrawn Amaethyddol**

Yn rhifyn Gorffennaf – Awst 2014 o 'Profi' sef Cylchgrawn Peiriannau Amaethyddol roedd erthygl am hanes Dafydd Davies, Ger y nant neu Dafydd Bwlchmawr i'w gwsmeriaid. Hyfryd oedd darllen am lwyddiant person lleol mewn cylchgrawn cenedlaethol. Ymlaen gyda'r gwaith da eto am flynyddoedd lawer.

**103 oed**

Ar ddydd Llun Gŵyl y Banc dathlodd Mrs Ada Williams, o gartref Maes y Felin ei phen-blwydd yn 103 oed. Bu nifer o'r teulu a'i ffrindiau yn galw mewn i'w gweld yn ystod y dydd ac yn eu mysg roedd Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion, Y Cyng John Adams Lewis a'i briod Morina.

**Eglwys Santes Gwenog**

Trefnwyd Helfa Drysor ym mis Gorffennaf gan Hefin a Jackie Davies. Diolch iddynt am y paratoadau, a gwnaed elw o £155. Y buddugwyr oedd Peter Davies a'i deulu,- da iawn chi.

Ar ôl mis yr eisteddfodau a'r sioeau, mae'n rhaid meddwl am dymor newydd yr ysgolion; dymunwn yn dda i'r rhai bach sydd ar fin dechrau ym myd addysg, ac i'r rhai sy'n symud ymlaen i'r ysgolion uwchradd. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiaannus gyda'u harholiadau, a dymuniadau gorau am y dyfodol.

Ym mis Awst cofnodwyd canmlwyddiant y Rhyfel Mawr, ac ar y 10fed o'r mis, cynhaliwyd gwasanaeth coffadwriaeth yn yr eglwys i gofio am wroniaid Llanwenog a fu yn y frwydr yma. Roedd yr eglwys yn orlawn, a chroesawyd y gynulleidfa gan Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanwenog, sef y Cyng. Geraint Hatcher. Cafwyd eitemau teilwng a dwys gan aelodau'r eglwys, capeli'r plwyf, C.Ff. I. Llanwenog a Chlwb Cledlyn, a darllenwyd llythyr trist gan aelod o deulu milwr ifanc a fu farw yn yr Almaen o ganlyniad i newyn a'r dicau a ddioddefodd mewn Gwersyll Carcharorion. Crewyd naws arbennig a theimladwy i gofio am fechgyn ifanc y plwyf a ddioddefodd ac a aberthodd eu bywydau yn y rhyfel erchyll yma, a bydd y gwasanaeth yn un a gofir am hir amser.

Cariwyd faner y Lleng brydeinig gan Tydfor Jenkins, ond blin yw deall bod swyddogion Lleng Brydeinig Llanwenog wedi ymddeol oherwydd henaint ac afiechyd, ac efallai mai hon oedd y tro olaf i'r faner ymddangos mewn gwasanaeth coffa. Gwnaed casgliad o £255.45, a bydd yn cael ei anfon tuag at gronfa 'Help for Heroes'.

Wedi'r gwasanaeth, caed cyfle i edrych dros arddangosfa o luniau, medalau ac henebion o'r cyfnod gofidus yma, a chael cymdeithasu dros de Cymreig a baratowyd gan wragedd y plwyf. Talwyd y diolchiadau gan Mrs. Mary Thomas, Ffosffald, gan ddiolch i'r Ficer, y Parch. Suzy Bale am drefnu'r rhaglenni ac am arwain y gwasanaeth; i Mrs Pauline Roberts-Jones am ei gwasanaeth wrth yr organ; i'r Cyng. Geraint Hatcher am y babell, ac i bawb am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad er mwyn cynnal y gwasanaeth teilwng yma.

Ar Awst 31ain, trefnwyd daith gerdded blwyfol o Eglwys Llanllwni i Eglwys Llanwenog, a mwynhawyd lluniaeth ar ddiwedd y daith, wedi ei baratoi gan y bedair Eglwys.

Cynhelir Noson Cyri Indiaidd yn yr Eglwys Fach Nos Wener y 5ed o Fedi am 7.30yh. Pris £10. Siaradwr gwadd – Dr. David Goodall, a fu yn feddyg yn Ysbyty Sarenga ym Menghal, India, a rhoddir cyfraniad i'r ysbyty.

Dymunwn wellhad buan i bawb sydd yn anhwylus, a chydymdeimlwn yn ddwys â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid.

Clwb 100 Mehefin: 1. Meryl Lloyd, Llanybydder; 2. Sian Jones, Awelon, Drefach; 3. Jeff a Carol Thomas, Drefach. Gorffennaf: 1. Colin Leppard, Cwmsychbant; 2.Valerie Thomas, Llanllwni; 3. Phil Tipping, Llanwenog. Awst: 1.Jeff a Carol Thomas, Drefach; 2. Kate Clive-Powell, Pontbrendu; 3. Oliver Abbott, c/o Rhiwson-isaf, Drefach.

**Y Gymdeithas Hŷn**

Mae'r aelodau wedi bod ar ddau drip ers rhifyn diwethaf Clonc, a'r tywydd wedi bod yn garedig ar y ddau achlysur.

Taith i Sir Benfro oedd hi ym mis Gorffennaf, i weld yr Amgueddfa Foduron yn Simpson Cross; casgliad ddiddorol o hen geir a faniau, a

# parhad

chypyrddau yn llawn modelau dros ddegawdau o amser. Roedd yna siop grefftau ar yr un safle, felly tra bu'r dynion yn astudio'r hen beiriannau, cyfle i'r gwragedd i ymweld â'r siop.

O fewn milltir neu ddwy ger Roch, roedd gerddi Hilton Court, ac wedi cael ychydig luniaeth ysgafn, treuliwyd prynhawn hamddenol yn mwynhau'r heulwen yn y gerddi. Nôl wedyn am ryw awr i siop fawr ar gyrion Hwlffordd, cyn mynd am swper i westy Nantyffin, Clunderwen.

Newid cyfeiriad ym mis Awst, a theithio i'r de dros Fannau Brycheiniog, trwy Gaerffili i Senghennydd. Ym mis Hydref y llynedd, dadorchuddiwyd cofeb mewn gerddi a grewyd yn arbennig i gofio a nodi canmlwyddiant y drychineb ofnadwy ym 1913 pan laddwyd 440 o lowyr, ac hefyd yr 88 a laddwyd mewn trychineb blaenorol yn 1902. Cofnodir enw pob un o'r dynion a'r bechgyn yn unigol ar waliau ar ffurf sgwâr o gwmpas y gofeb efydd. O amgylch y sgwâr, mae yna bafin dwbwl, yn cofnodi pob trychineb yng nglofeydd Cymru; diddorol oedd clywed fod yn rhaid i bump neu ragor o ddynion farw cyn ystyrir y golled yn drychineb. Rhannwyd y grŵp yn ddau; tra bu hanner yn ymweld â'r gofeb, bu'r hanner arall yn yr amgueddfa dreftadaeth a chael cyfle i weld ffilm a chlywed yr hanes, cyn newid lleoliad. Ymlaen wedyn i Fae Caerdydd, a chael prynhawn hamddenol eto cyn cychwyn am adre, a chael swper yn Y Plough, Rhosmaen. Braf oedd cael cwmni sawl un newydd dros y misoedd diwethaf, ac mae yna groeso cynnes i bawb i ymuno â ni.

Bydd taith olaf 2014 dydd Mercher, Medi'r 10fed yn mynd i ardal Aberdyfi a Thywyn, gan aros ym Machynlleth ar y ffordd i weld y stondinau yn y farchnad. Enwau i Yvonne 480590.

**Capel Brynteg**

Cynhaliwyd cyngerdd ym Mrynteg canol mis Gorffennaf er mwyn codi arian at welliannau sydd angen eu gwneud ar y capel, a chroesawyd pawb gan Eifion Davies.

Llywydd y noson oedd Mrs Jean Jones, Llandre, a chafwyd geiriau pwrpasol ganddi yn edrych 'nôl ar ei magwraeth ym Maesydderwen a Tandderi, a'r Capel yn rhan bwysig ohono. Hefyd bu'n olrhain sefydlu'r capel, a'i hen-hen-ddatcu yn un o'r sylfeinwyr . Diolch iddi am ei rhodd sylwedddol iawn at y noson.

Cymerwyd rhan gan Gôr Lleisiau'r Werin o dan arweiniad Mrs Elonwy Davies, a Mrs Margaret Jones yn cyfeilio; Catrin a Rhian, (Hendy gynt); Meleri, Rhys ac Elin Davies, Tyngrug-isaf, a Lowri a Rhys Jones, Pantyrhendy.

Diolchwyd i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson gan Yvonne.

# Colofn Cefn Gwlad



gan Helen Howells, Uwch-swyddog Cefn Gwlad Cyfoeth Naturiol Cymru

**Cynhaeaf y Cloddiau**

Wedi'r Haf cynnes a heulog rydym wedi profi eleni, mae yna wledd yn ein disgwyl yn y cloddiau. Rwy'n siwr bod nifer o ddarllenwyr Clonc wedi manteisio ar gasglu mwyar duon, mafon gwyllt ac eirin sur a'u defnyddio mewn riseitiau teuluol. Ond yn y rhifyn yma, hoffwn dynnu eich sylw i ambell blanhigyn cyffredin sy'n llai adnabyddus am eu nodweddion coginiol a sut y gallent cael eu ddefnyddio yn y gegin.

Cofiwch os ydych yn mynd i chwilota am ddanteithion gwyllt, eich bod chi yn sicr eich bod yn adnabod y planhigyn cywir a'ch bod chi yn gadael digon ar ôl i fywyd gwyllt.

**Y Ffawydden (Beech)**

Mi oedd y llynedd yn 'mast year' ar gyfer y ffawydden â digonedd o gnau ffawydd ar hyd y coed a'r cloddiau. Mae eleni'n argoeli'n dda hefyd. Mae cnau a dail y ffawydd yn fwytadwy. Mae'r cnau yn blasu'n debyg i gneuen Ffrengig (walnut) a gellir ei defnyddio mewn crymbl ffrwythau neu unrhyw rysait lle gofynnir am gnau. Bydd yn rhaid i chi fynd i gasglu cnau ffawydd yn go handi gan fyddwch yn cystadlu gyda'r wiwerod ar eu cyfer!

**Y Ddraenen Wen (Hawthorn)**

Un o brysglwyn mwyaf cyffredin ein cloddiau, mi fydd hi'n hawdd i chi ddod o hyd i ddigon o'i aeron coch, a elwir gan rai yn Eirin Moch, neu'n Hawberries yn Saesneg. Gellir defnyddio'r dail a'i ychwanegu i salad ond y dail ifanc sydd orau ar gyfer hyn. Mae'n nhw'n arbennig o dda i'w roi gyda salad o dato newydd gyda shibwns mewn finigret. Rhywbeth i gofio amdano gwanwyn nesaf! Mae gan y Ddraenen Wen ddefnydd meddygol arbennig, fel triniaeth ar gyfer gorbwysedd. Mae'r planhigyn yn lleihau lefelau cholesterol ac y mae iddo gyfansawdd cemegol sy'n helpu i waed lifo drwy'r rhydweli, sy'n lleddfu symptomau arteriosglerosis ac angina. Mae'r aeron hefyd yn llawn o Fitamin C ac mae'n werth gwneud y surop yma i warchod rhag annwyd dros y Gaeaf.

**Surop Eirin Moch (Haw Syrup)**

(Yn gwneud oddieutu 4 litr)
1kg Eirin Moch
3 litr Dŵr Berwedig
450g Siwgr Gwyn Gronynnog

1. Stwnsiwch yr eirin gydag offeryn pren neu carreg (bydd defnyddio metal yn lleihau'r cynnwys Fitamin C). Yna ychwanegwch hwy i bot mawr briddlestr (eto, dim un metal) ac ychwanegwch y dŵr poeth.
2. Mudferwch am 20 munud, hidlwch yr hylif o'r eirin i fewn i fowlen mawr gwydr neu briddlestr.
3. Gwaredwch yr eirin, ac arllwys yr hylif yn ôl i'r pot coginio. Ychwanegwch y siwgr a berwch eto am 10 munud nes bod yr hylif yn gostwng ac yn tewau i answadd surop.
4. Tywalltwch i fewn i foteli wedi'u twymo a'u sterileiddio.
   Os oes gennych annwyd, gwanedwch 1 rhan o surop gydag 1 rhan dŵr poeth, gyda gwasgiad o lemwn a shot fach o frandi. Yfwch cyn mynd i'r gwely a gyda bach o lwc, byddwch yn teimlo llawer gwell yn y bore!

Os ydych yn chwilotwr profiadaol, efallai byddwch yn hoffi'r rysait yma sy'n dathlu holl gynhaeaf y cloddiau! Mae'n bosib na fydd yr holl 'cnwd' yn aeddfedu ar yr un pryd, ond mae'n werth eu rhewi nes eich bod wedi dod o hyd i'r holl gynhwysion. Daw'r rysait yma o Sir Frycheiniog.

**Jam Cloddiau'r Bannau**

(yn gwneud 10-12 Jar 454g)
450g Afalau Sur (crab apples)
250g Egroes (rose-hips)
250g Eirin Moch (hawberries)
250g Eirin Sur (sloes)
250g Aeron Cerdin (rowan berries)
450g Aeron Ysgawen (elder berries)
450g Mwyar Duon (blackberries)
125g Cnau Gollen (hazelnuts) neu Cnau Ffawydd (beech nuts), wedi'i torri'n fan
Siwgr Gwyn Gronnynog (o leiaf 900g - gweler isod)
Menyn

1. Golchwch y ffrwyth yn dda. Rhowch y ffrwyth i gyd, oni bai am yr aeron ysgawen a'r mwyar duon i fewn i sosban fawr ac ychwanegwch mond ddigon o ddŵr i'w orchuddio. Mudferwch tan fydd y ffrwyth wedi meddalu. Bydd hyn yn cymryd tua hanner awr.
2. Pan yn feddal, gwthiwch y ffrwyth trwy rhudyll i waredu unrhyw hadau, yna pwyswch y ffrwyth.
3. Rhowch y ffrwyth yn ôl yn y sosban ac ychwanegwch yr aeron ysgawen, y mwyar duon a'r cnau. Mudferwch â'i choginio ar dymheredd isel am 15 munud.
4. Ychwanegwch 900g o siwgr, a rhagor sy'n cydfynd â phwysau'r ffrwyth. Trowch y gymysgedd, a choginiwch eto ar dymheredd isel tan fydd y siwgr wedi toddi.
5. Ychwanegwch llwyed o fenyn a dewch â'r gymysgedd i'r berw. Gadewch i'r gymysgedd ferwi'n gyflym am 10 munud a phrofwch os ydy'n barod.
6. Tywalltwch y gymysgedd â llwy i fewn i jariau cynnes wedi'i sterileiddio. Gorchuddiwch â disgiau cwyr gan eu selio. Storiwch hwy mewn man oer, tywyll.

Daw'r ryseitiau o The Hedgerow Handbook gan Adele Nozedar.

# Llanybydder

**Cydymdeimlo**

Danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr a Mrs Pugh Jones, Gorlan ar golli, mam, mamgu a hen famgu annwyl iawn yn Mrs Rachel Jones gynt o Bro Einon yn ystod yr haf. Rhoddwyd ei gweddillion i orffwys yn fynwent Capel y Bryn.

**Arholiad Piano**

Llongyfarchiadau i Sioned Fflur Davies a Ffion Mai Davies am lwyddo yn eu harholiadau cerddoriaeth yn ddiweddar. Cafodd Sioned ragoriaeth yn ei harholiad ysgrifenedig gradd 1 ac fe lwyddodd Ffion yn ei harholiad piano gradd 1 gyda theilyngdod. Diolch o galon i mamgu, sef Mrs Eiry Jones, Maesyllan, Llambed am eu dysgu.

**Diolch**

Dymuna teulu y diweddar Rachel Jones a oedd yng nghartref Alltymynydd, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn dilyn marwolaeth mam, mamgu a hen famgu annwyl.

**Dyweddïad**

Llongyfarchiadau mawr i Carwyn Lloyd, Welwyn, ac Alicja Jaksik, Bro Einon, ar eu dyweddiad ar yr 11eg o Orffennaf tra ar eu gwyliau ar ynysoedd Groeg.

**Barbeciw**

Cynhelir Barbeciw yng Nghwm Aur, Llanybydder ar ddydd Sadwrn, Medi 27ain am 1.30y.p. Ceir adloniant gan Gôr Clychau'r Fedwen. Y Llywydd fydd Mrs Diana Harper, Mountain Breeze, Ty Mawr. Bydd yr elw tuag at Ymchwil Cancr Llanybydder a'r Cylch.

**Cymdeithas y Chwiorydd, Aberduar, Llanybydder**

Eleni mae Cymdeithas y Chwiorydd, Aberduar yn dathlu 70 o flynyddoedd o waith ers dechrau'r Gymdeithas yn ystod mis Tachwedd 1944. Mae'n fwriad gan y Gymdeithas i gynnal swper i nodi'r achlysur yn y festri ar y 5ed o Dachwedd. Bydd y tocynnau ar gael gan y chwiorydd am £5 yr un o ddechrau mis Medi ymlaen, hyd at y 15ed o Hydref (sef diwrnod Cyrddau Diolchgarwch Aberduar). Croeso i bawb sydd wedi bod â rhan yn y gwaith ac sy'n dymuno dathlu gyda ni – ond mynnwch docyn, er mwyn i ni wybod faint i baratoi ar eu cyfer!

**Côr Lleisiau'r Werin**

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r côr wedi bod yn brysur iawn yn diddanu o fan i fan. Ym mis Mai, buom yn canu yn festri Aberduar gyda Chymdeithas Henoed Llanybydder a'r nos Sul ganlynol, Eglwys Cilcennin oedd lleoliad cyngerdd lle cawsom groeso cynnes gan yr aelodau ac hefyd lluniaeth hyfryd i ddilyn.

Ym mis Mehefin, bu'r côr yn canu i drigolion cartref Cwm Aur lle gwelsom sawl wyneb cyfarwydd ac rwy'n siwr iddynt fwynhau'r caneuon amrywiol. Ym mis Gorffennaf, Capel Brynteg oedd y gyrchfan ac roedd cynulleidfa dda yn bresennol. Cafwyd eitemau hefyd gan y ddwy chwaer Catrin a Rhian, gan Meleri, Rhys ac Elin, Tyngrug a Lowri a Rhys Jones. Ers sawl blwyddyn bellach, yr ydym wedi bod yn diddanu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac nid oedd eleni yn eithriad. Nid yw'r llwyfan perfformio yn ddieithr i ni bellach a chawsom hwyl yn canu amrywiaeth o ganeuon gyda chynulleidfa dda yn gwrando a chymeradwyo. Aeth llond bws ohonom ni lawr i Lanelli, yn aelodau a chefnogwyr, ac ar y ffordd adref cawsom swper blasus yn y Bridge Inn, Llangennech.

Wrth i ni gau pen y mwdwl am yr haf, trist iawn oedd gorfod dweud ffarwel wrth ein cyfeilyddes ddawnus, Mrs Margaret Jones. Diolch iddi am flynyddoedd o wasanaeth i'r côr, ac fel arwydd o werthfargiad, cyflwynwyd anrheg fach iddi. Gobeithio y caiff ymddeoliad hir a hapus yn Llambed a Sir Benfro! Croeso mawr hefyd i'n cyfeilyddes newydd, Mrs Ceinwen Evans. Yr ydym yn ffodus iawn o'i chael a gobeithio y bydd yn hapus iawn yn ein plith, gyda Mrs Elonwy Davies parhau wrth y llyw. Disgwyliwn ymlan i ail gydio yn y canu ym Mis Medi.

**Cerdd**

Llongyfarchiadau i Nia Thomas, Llys Neuadd ar basio arholiad Piano Gradd 3 ac ysgrifenedig Gradd 2 gyda theilyngdod. Hefyd i Lois Price, Llanbed ar lwyddo yng ngradd 2 piano a Gradd 1 Ysgrifenedig gydag anrhydedd ac i Elin Davies, Tyngrug Isaf Gradd 5 Ysgrifenedig gyda theilyngdod. Yr arholiadau dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol.



**Priodi**

Llongyfarchiadau i Gareth Jones, Prospect House a Tracy Bunton a briododd yn Eglwys San Pedr, Llanybydder ar ddydd Gwener, Gorffennaf 18fed.



Bu tîm merched dan 14 Llanybydder yn cystadlu yn yr 'Welsh International Super Cup' yng Nghaerdydd ar benwythnos y 3/4ydd o Awst. Bu iddynt ennill y cwpan her am eu hoedran a nhw hefyd oedd y tîm merched gorau o Gymru hefyd. Tipyn o gamp i Glwb bach o Orllewin Cymru! Roedd timoedd o dros y byd yn cystadlu, o'r Unol Daleithiau a Norwy, er enghraifft. Mae'r Clwb bob amser yn chwilio am aelodau newydd – gellir cysylltu gyda Kelvin James ar 01570 480253 (nos) am ragor o wybodaeth.



**Clwb Hoci Llanybydder**

Dyma enillwyr Clwb Hoci Llanybydder am y tymor 2013 -2014.

O'r chwith idde, Claire Webb- Capten eleni a'r llynedd, Caryl Rees- Is gapten y llynedd, Gemma Hope- Chwaraewraig y flwyddyn am y drydedd waith yn olynol, Laura Jones- Sgorwraig uchaf wedi iddi sgorio 23 gôl yn ystod y tymor. Mae Laura hefyd yn derbyn y wobr yma am y drydedd waith yn olynol. Yn absennol o'r llun mae Gwenllian Jones a enillodd y tlws fel y chwaraewraig mwyaf addawol ynghyd â chael ei hethol fel yr Is gapten am y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r ymarferion wedi ail ddechrau ar gyfer y tymor newydd- bob nos Fercher am 7.00 o'r gloch ar yr astro ger y Ganolfan Hamdden yn Llambed.

Mae timau Dan 16 a Dan 13 wedi eu sefydlu ers 2010 erbyn hyn ac mae croeso cynnes i chwaraewyr newydd i ymuno â ni yn yr ymarferion sydd yn dechrau am 6.30 i'r Timau Iau.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Sam Garside, Gelli Aur, Rhydybont ar dderbyn gradd B.A. Addysg Blynyddoedd Cynnar yng Ngholeg Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin.

**Priodas Ddiemwnt**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Islwyn a Dora Jones, Gwynfa ar achlysur dathlu eu priodas ddiemwnt ar 25 Medi.

**Gwellhad**

Gwellhad buan i Tomos Davies, 4 Bro Rhydybont ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Glangwili yn ystod yr haf.

**Graddio**

Llongyfarchiadau i Catrin Davies, gynt o Gwastod Iago am raddio gyda Baglor mewn nyrsio. Pob lwc i'r dyfodol. [Llun i'r dde.]



# Llanllwni

**Taith Tractorau**

Ar Ddydd Sul, Awst 17eg cynhaliwyd taith tractorau i godi Arian tuag at ymchwil cancr Cymru ynghyd â Chylch Meithrin Llanllwni. Trefnwyd y diwrnod gan Geraint Rees a Huw Evans er cof am y diweddar Jim Evans, Fronwen, Llanwenog. Dechreuwyd y daith o Mart Llanybydder ac yna o amgylch hewlydd cefn gwlad.



Cafwyd cefnogaeth di-ri gyda 51 o thractorau wedi ymgynull. Diolch i bawb am gefnogi yn ariannol, ynghyd â rheiny wnaeth roi gwobrau i'r raffl. Diolch hefyd i yrrwyr y tractorau - hebddynt byddai'r diwrnod ddim wedi bod mor llwyddiannus. Diolch i bawb wnaeth gynorthwyo yn ystod y dydd ac i Evans Bros am gael defnyddio'r mart, cegin Gwenog am luniaeth bore a Chefnhafod am wledd i ginio. Diolch hefyd i Gary Jones am y lluniau disglair. Llwyddwyd i godi dros mil o bunnoedd ar y diwrnod. Diolch.




**Cylch Ti a Fi Llanllwni**

Ar y 6ed o Fehefin aeth y Cylch ar drip flynyddol i Fferm Folly. Braf oedd gweld y plant yn mwynhau gweld yr holl anifeiliaid.

Yn ystod y gwyliau haf bu Erin, Einir ac Osian cymeryd rhan ym Mhasiant y Mudiad Ysgolion Meithrin Sir Gâr yn Eisteddfod Llanelli. Gwnaeth y tri fwynhau y profiad yn fawr iawn!



Osian Powell, Einir George ac Erin Evans.

Cynhelir cyfarfod y Cylch ynghyd â Phwyllgor Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanllwni ar y 10fed o Fedi am 7 yr hwyr yn yr ysgol, croeso cynnes i bawb.

Bydd y Cylch yn cychwyn ar yr 2il o Fedi, edrychwn ymlaen i glywed straeon y plant bach!

Mae Cylch Ti a Fi yn cwrdd bob bore dydd Gwener am 10 y bore yn yr Ysgol. Croeso i rieni a Mamgu's a Tadcu's yr ardal i gwrdd ag eraill dros baned a sgwrs tra bod y plant bach yn chwarae a gwenud gweithgareddau!

**C.Ff.I Llanllwni.**

Croeso nôl i chi yn dilyn yr hoe fer a gawsom dros yr haf! Er ein bod wedi cael ychydig o wythnosau tawel dros y gwyliau, prysur yw hi wedi bod da'r aelodau fel arfer. Bu pump o aelodau'r clwb yn cystadlu yn y sioe frenhinol yn Llanelwedd. Llongyfarchiadu i Meryl Davies, Rhian Davies a Ceris Howells am ddod yn bedwerydd yng nghystadleuaeth creu arwr, ac i Sam Joynson a Carwyn Lewis am ddod yn gydradd pumed yn y gwaith coed, adran hŷn. Wythnos ar ôl y sioe cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol i ethol a dewis swyddogion am y flwyddyn sydd o'n blaen. Ein cadeiryddes am y flwyddyn nesaf fydd Ffion Rees, efo Carwyn Lewis yn is-gadeirydd. Ein hysgrifenyddes newydd yw Elin Evans, Frongelli, a Meryl Davies fydd ein trysorydd. Pob lwc i chi gyd yn eich swyddi newydd! Yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli yn ddiweddar, cafodd holl aelodau Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr y cyfle i fod yn rhan o'r sioe a gafodd ei llwyfanu o'r pafiliwn pinc ar y nos Fawrth. Sioe ydoedd yn bennaf i ddathlu 70 mlynedd ers sefydlu mudiad y Ffermwyr Ifanc yn Sir Gâr. I'r sawl ohonoch a fuodd yn ddigon ffodus o fod yno yn rhan o'r cynulleidfa, sgwn i faint ohonoch wnaeth pigo allan 17 o aelodau clwb Llanllwni ar y llwyfan? Mae'n rhaid dweud bod pob un ohonom a fuodd yn rhan o'r sioe yn falch iawn o'r cyfle a'r anrhydedd o fod yn rhan o sioe mor lwyddiannus; sioe a fydd yn sefyll yn y côf am amser hir 'rwy'n siwr. Diolch i bawb a fu ynglwm â chynhyrchu'r sioe mewn unrhyw fodd, a diolch i'r aelodau hŷn a rhieni a fuodd yn cludo'r holl aelodau i'r gwahanol ymarferion yn ystod y misoedd diwethaf! Mi fydd y flwyddyn newydd yn dechrau ar nos Fawrth, yr ail o Fedi yn neuadd yr Eglwys, Llanllwni am 8 o'r gloch. Croeso i aelodau hen a newydd!

**Sioe C.Ff.I. Llanllwni**

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn yn ein Treialon cŵn defaid a Sioe ar ddydd Llun, Gŵyl y Banc, er gwaethaf y tywydd! Ein llywyddion am y diwrnod oedd Mr a Mrs Tom Harries, Castle View, Llanllwni. Er fod y tywydd yn llaith a diflas wedi ein dal eleni, roedd cefnogaeth yr ardal yr un mor gryf ag erioed. Fu'r treialon yn rhedeg yn ddi-dor trwy'r dydd a'r babell cystadlu dan ei sang o lysiau, cacennau, blodau a gwaith adrannau'r plant. Roedd y sioe ddefaid yn gryf fel arfer, ac fe orffennwyd y noson yn nhafarn y Talardd yn gwylio gwartheg gorau'r ardal yn arddangos ar y sgrin fawr, ynghyd ag ocsiwm.

Canlyniadau'r dydd:- Adran flodau – Ann Bellamy. Adran Coginio – Rhian Davies. Adran Garddwriaethol – Mr a Mrs Leigh, Whitemoss. Adran Cynnyrch Fferm – Gwarallt. Adran Gwin a Chyffeithiau – Mr Keith Jones, Penllain. Adran Ffotograffiaeth – Pantglas. Plant dan 7 oed- Mared Harries. Plant 7-11 – Alaw Jones. Plant 12-16 – Betsan Jones. Adran defaid Iseldir – Blaenwaun. Adran defaid ucheldir – Cwmderi. Pencampwr Defaid – Blaenwaun. Adran Gwartheg Biff – Blaenwaun. Adran Gwartheg Godro – Aberglwydeth/ Gwarcwm / Gwarallt. Pencampwr Gwartheg – Gwarcwm.


Treialon Cŵn Defaid – Open National – R Millichap. Open South Wales – E L Morgan. Novice South Wales – Lisa Hanson.

Dymuna aelodau'r clwb ddiolch yn ddiffuant i bawb a wnaeth gefogi'r sioe mewn unrhyw fodd, o'r paratoi, y cynnal, ac hefyd y clirio! Heb eich cefnogaeth chi ni fyddai'r diwrnod yn bosib. Bydd holl elw'r dydd yn cael ei drosglwyddo i Ysbyty Briste, lle mae un o'r aelodau wedi cael triniaeth. Cewch wybod y cyfanswm yn y rhifyn nesa.

# Eisteddfod Genedlaethol



Disgyblion Ysgol Ddawns Sally Saunders yn ennill gwobrau yn Llanelli.







# Cornel y Plant

I blant dan 8 oed



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.


Annwyl Ffrindiau,

Shw mae? Wel mae'r haul wedi bod yn gwenu arnom yn ystod gwyliau'r haf eleni. Beth fuoch chi'n ei wneud yn ystod y gwyliau? Wel mi fues i yn adeiladu cestyll tywod ar draeth Poppit, es i am dro yn y goedwig, am drip i'r pwll nofio a chael sawl picnic gyda'm ffrindiau. Gwyliau bendigedig!! Ond nawr mae'n amser i'r ysgol ail ddechrau a chyfle i weld hen ffrindiau a chwrdd â ffrindiau newydd.

Cefais lond sach o luniau lliwgar dros yr wythnosau olaf yma, roedd y postmon yn gorfod cael help llaw i gario'r holl luniau i'r tŷ. Roeddwn yn hoff iawn o luniau Garan Davies, Mared Pugh a Ceulan Davies o Dalsarn, Cerith Parry Evans, Lois Erin Davies, Chloe James, Gwenno Medi Jones, Lois Elisa Daniels a Cerys Haf Evans o Felinfach, Gwion Miles, Soffi Morgan a Guto Miles o Temple Bar, Naomi Jones o Gilcennin, Kai Jones a Betrys Llwyd Dafydd o Abermeurig, Ffion Haf Morgan o Gribyn, Leah Regan o Greuddyn Bridge, Iestyn Evans o Lanllwni, Swyn Efa Tomos o Bencarreg, Holly Ann Davies o Graig Cefn Parc ac Alwena Mair Owen o Lanllwni. Ond y llun taclusaf a'r un mwyaf lliwgar oedd un Ruby Morgan, 21 Bro Henllys, Felinfach, Llanbedr Pont Steffan. Da iawn bawb! Diolch yn fawr iawn i chi gyd am gystadlu y mis diwethaf a llongyfarchiadau mawr iawn i ti Ruby!


Nawr beth am fynd ati i liwio llun o'r bag ysgol? Cofiwch ei ddychwelyd i mi cyn dydd Llun, Medi 22ain. Mwynhewch eich lliwio!

Ta ta tan toc.




Enillydd y mis!


Ruby Morgan



Enw: Oed:

Cyfeiriad:

# Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne




**GWLAD BRYCHAN A CHUNEDDA (66)**

Rydym wedi crybwyll enw Brychan, llywodraethwr Brycheiniog, sawl gwaith yn yr ysgrifau hyn. Sefydlodd Brychan linach deuluol niferus iawn a'r rheini'n cael eu coffáu mewn enwau plwyfi ac eglwysi ar draws Cymru. Honnai pob un o frenhinoedd diweddarach Brycheiniog eu bod yn ddisgynyddion i Brychan. Yn ôl un chwedl dywedir iddo gael 10 o feibion a 25 o ferched, y rhan fwyaf ohonyn nhw'n seintiau.

Mab yng nghyfraith i Brychan oedd Brynach Wyddel ac mae eglwysi yn dwyn ei enw yn LLANFRYNACH ym Mrycheiniog a Morgannwg. Y ffurf ar ei enw a gedwir yn Sir Benfro yw Byrnach ac mae'n cael ei goffáu yn LLANFYRNACH-AR-DAF, ar ffin siroedd Caerfyrddin a Phenfro.

Mae nifer y plant a briodolir i Cunedda, sylfaenydd traddodiadol teyrnas Gwynedd, yn llai. Bu llawer o olrhain achau, serch hynny, yn ôl at ei wyth mab. Honnir i saith o'r meibion ddod gyda'u tad o'r Hen Ogledd i ymlid y Gwyddelod o Wynedd. Sefydlwyd teyrnasoedd ganddyn nhw yng Nghymru sy'n dwyn eu henwau. Enwyd RHUFONIOG ar ôl Rhufawn yn ôl traddodiad, ac EDEIRNION ar ôl Edern (neu Eternus) a CHEREDIGION ar ôl Ceredig. Mae rhai achau'n awgrymu mai mab arall i Cunedda oedd Coel ac, o bosibl, mae COLION neu COELION yn Nyffryn Clwyd yn ei goffáu ef. Sylfaen yr enw OSFEILION (neu YSWEILION) ym Môn yw Osfael, a oedd yn un arall o feibion Cunedda. Honnir bod EIFIONYDD wedi'i enwi ar ôl Eifion, ŵyr Cunedda. Un arall o ŵyrion Cunedda sef Meirion a goffeir, eto yn ôl traddodiad, ym MEIRIONNYDD. Ŵyr arall i Cunedda oedd Afloeg a choffeir ef yn AFLOEGION, un o hen gymydau Llŷn.

Mae canfyddiad yn Sir Gaerfyrddin bod safle o'r enw Allt Cunedda gerllaw Cydweli yn coffáu enw sylfaenydd traddodiadol teyrnas Gwynedd. Ac yn wir dyma'r unig safle yng Nghymru gyfan sy'n dwyn enw Cunedda. Yr arfordir ar lan Bae Caerfyrddin yng nghesail Allt Cunedda oedd tiriogaeth 'Gwŷr y Bwyelli Bach': y criw ysbeilgar a oedd yn defnyddio goleuadau i ddenu llongau at y twyni tywod cyn dryllio'r howldiau a'u bwyelli miniog a dwyn y cargo. Tybed ai ar Allt Cunedda y bu gwŷr y bwyelli bach yn mireinio'r grefft o drin a hogi bwyelli? Er da neu er gwaeth, gwyddom yn hollol sicr erbyn hyn mai person hollol wahanol a chanddo enw hollol wahanol a goffeir yn enw'r allt a elwir erbyn hyn yn Allt Cunedda.

Bu gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru bresenoldeb ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli ym mis Awst. Rhoddwyd sylw i Allt Cunedda a rhai o enwau lleoedd Sir Gaerfyrddin mewn darlith ym Mhabell y Cymdeithasau 2, ddydd Mawrth, 5 Awst am 4.30 y pnawn. Gyda chefnogaeth y Gymdeithas rhoddwyd sylw eisoes i ddyrnaid o enwau ar gyrion maes yr eisteddfod yn y rhifyn cyfredol o'r 'Faner Newydd' a bydd sylwadau pellach yn ymddangos yn rhifyn yr Eisteddfod o 'Barn'. Enwau caeau cyffiniol i faes yr Eisteddfod a gafodd y sylw mewn arddangosfa bwysig gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru ar y maes eleni.

Cynhelir cynhadledd flynyddol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru 2014 yn Abertawe, ddydd Sadwrn 4 Hydref gyda chydweithrediad Academi Hywel Teifi; rhoir sylw i enwau lleoedd yn Sir Forgannwg a Chernyw. Mae manylion cyflawn wedi ymddangos ar wefan y Gymdeithas.

Da oedd gweld cystadleuaeth i gofnodi enwau caeau lleol yn Sioe Cwrtycadno. Gobeithio y bydd sioeau lleol eraill yn dilyn.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org enwaulleoedd@gmail.com

# Fan hyn a fan draw .......



Grŵp o dri a Phencampwr Hwrdd 'Blue Texels' a enillodd yn Sioe Llambed o eiddo Dylan Jones, Llanllwni.




Barnu defaid Llanwenog yn Sioe Llanelwedd.



Elin Jones AC a Mark Williams AS, a agorodd yr Ŵyl Fwyd yn swyddogol eleni a bu'r ddau ynghyd â'r Maer Cyng. Elsie Dafis a'r Faeres Liz Williams yn beirniadau y gystadleuaeth stondin orau. Enillwyd y darian am y stondin orau gan Yummy Mummies o Landdewi Brefi sef Emily Swanzy, Amy Waller a'i merched Harriet a Trinity.



Gwinllan Llaethlliw Vineyard, Neuaddlwyd, Aberaeron yn gwerthu eu cynnyrch cyntaf o win coch, rosé a gwyn sydd eisioes wedi ennill Gwobr Efydd. Yn y llun mae (canol) Sue Evans, gyda Charley Miller a Megan Evans.




# Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen 2014 .....




**Unawd dan 6 oed** [Cyf] - 1. Megan Wyn Morris, Talley. 2. Megan Dafydd, Cwmann. 3. Fflur Morgan, Drefach. 4. Elin Dafydd, Cwmann.

**Llefaru dan 6 oed** [Cyf] - 1. Megan Wyn Morris, Talley. 2. Fflur Morgan, Drefach. 3. Megan Dafydd, Cwmann. 4. Elin Dafydd, Cwmann.




**Unawd 6 - 9 oed** [Cyf] - 1. Gruffydd Llwyd Dafydd, Abermeurig. 2. Dion Teilo Regan, Llangybi. 3. Alwena Mair Owen, Llanllwni. 4. Cerys Angharad, Llangybi. 5. Ffion Mai Davies, Llanybydder.

**Llefaru 6 - 9 oed** [Cyf] - 1. Alwena Mair Owen. 2. Ffion Mai Davies. 3. Dion Teilo Regan. 4. Cerys Angharad. 5. Luned Jones, Cwmsychpant.



**Unawd 9 - 12 oed** [Cyf] - 1. Beca Ann Jones, Cwmann. 2. Sioned Fflur Davies, Llanybydder. 3. Nia Eleri Morgans, Gorsgoch. 4. Sara Elan Jones, Cwmann. Lois Mai Jones, Cwmsychpant.

**Llefaru 9 - 12 oed** [Cyf] - 1. Sara Elan Jones. 2. Sioned Fflur Davies.



**Unawd ar unrhyw offeryn cerdd gan gynnwys y piano dan 12 oed** [Cyf] - 1. Nia Beca Jones, Llanwnnen



**Deuawd dan 12 oed** [Cyf] - 1. Sara Elan Jones a Beca Ann Jones, Cwmann.




Nia Eleri Morgans, Gorsgoch yn ennill y cyntaf am ganu emyn dan 12oed



Lowri Elen Jones, Llambed yn ennill cwpan Unawd Cerdd Dant 12-19 a chwpan yr Alaw Werin 12-19oed



Parti Aelwyd yr Urdd Llambed yn ennill y cyntaf yng nghystadleuaeth y Parti Unsain Agored.



Sara Elan Jones, Cwmann a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth Llefaru 10 - 12 oed ar y dydd Llun.



Siwan Mason o Lanfair Pwll, Ynys Môn ond sydd â'i gwreiddiau yn Llambed yn ennill y Darian ar yr Unawd Merched 12-15 oed



Peredur Llywelyn, Llandysul gyda'i darian a enillodd am lefaru dan 8 oed